# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 556 · **Medi 2024** · 70c


## GORAU CHWARAE LLAWENYDD

# Clwb Rygbi Bethesda yn dathlu 50

Fis Awst cafwyd dathliad mawreddog wrth i Glwb Rygbi Bethesda ddathlu ei hanner can mlwyddiant. Roedd cyfle i bobl hel atgofion, dod yn ôl at ei gilydd a dathlu llwyddiant arbennig clwb ein pentref bach i gyrraedd carreg filltir mor bwysig.

Ar y diwrnod, cafwyd gêm yn erbyn Rygbi Gogledd Cymru ac wedyn noson o ddathlu mewn pabell enfawr a godwyd ar y cae gyda dros 500 o bobl yn bresennol.

Sefydlwyd y clwb yn ôl yn 1974 yn dilyn ymdrech fawr gan y gymuned. Pedwar o'r rhai mwyaf blaenllaw yn y dyddiau cynnar oedd Ieuan Llywelyn Jones, Dr Bowen Jones, Joe 'PT' Owen a Buckley Wyn.

Chwaraewyd y gem cyntaf yn erbyn Cymry Caerdydd ym mis Medi 1974 gyda'r sylwebydd enwog, Huw Llywelyn Davies, yn nhîm y gwrthwynebwyr. Daeth buddugoliaeth gyntaf y clwb dair wythnos wedyn yn erbyn Caernarfon gyda'r hogia yn chwarae eu gemau ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen yn y dyddiau cynnar.

Erbyn 1978 cafwyd adeilad ar ochr y cae yn Dolddafydd i ffurfio cartref i'r clwb am y tro cyntaf. Hen adeilad a ddaeth o'r Mynydd Gwefru yn Dinorwig oedd o, a mi oedd yn bosib wedyn i estyn croeso go iawn, a cafwyd nifer o nosweithiau arbennig yno. Rhentiwyd Dolddafydd gan Stâd y Penrhyn

Cyn hynny roedd y tîm yn newid yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac wedyn yn cael bwyd a chwrw yn un o dafarndai'r pentref,  ond roedd rhaid mynd drwy'r drws cefn oherwydd yr hen reolau ar oriau agor tafarndai ar y pryd!

Felly gyda chartref y clwb yn ei le, parhaodd y tîm i chwarae yng nghynghreiriau lleol yn eu crysau melyn enwog, a datblygu carfannau o hogiau ifanc, talentog o'r Dyffryn gyda help ambell un nodedig o bellach i ffwrdd a ymunodd i chwarae yn y tîm.

**Parhau ar t8**



50fed Penblwydd

**Llais Ogwan**

**ARDDANGOSFA**

**yn NEUADD OGWEN**

**22 – 26 Hydref 2024**

**10.00 – 4.00yp**

**Mynediad am ddim**

**hefyd**

**NOSON DATHLU 50 MLYNEDD LLAIS OGWAN**




**Llais Ogwan**

**yng**

**Nghlwb Rygbi Bethesda**

**Nos Wener, 25 Hydref**

**am 7 o'r gloch**

**BWYD AC ADLONIANT**

**Mynediad trwy docyn yn unig**

**Pris : £5.00**

# Llais Ogwan

**Rhif 556**
Medi 2024

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Trystan Pritchard**.

Y golygydd ym mis Hydref fydd **Neville Hughes**, Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA.
01248 600853
E-bost: nev-hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Medi** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 17 Hydref** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Awst**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (88) | Linda Parker, Gwel y Nant, Bethesda. |
| £20.00 | (108) | Helen Ll. Roberts, Rhos y Nant, Bethesda. |
| £10.00 | (113) | Brenda Hughes, Arafa Don, Bethesda. |
| £5.00 | (50) | Ceri Dart, Rhos y Nant, Bethesda. |

**Gwobrau Medi**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (17) | Owen G. Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £20.00 | (97) | Walter W. Williams, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 | (165) | Mairwen Williams, Star, Gaerwen. |
| £5.00 | (167) | Alan Williams, Star, Gaerwen. |

# Dyddiadur y Dyffryn

**Medi**

21 Bore Coffi MacMillan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
24 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
28 Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
30 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

**Hydref**

**05** Bore Coffi Plaid Cymru. Top Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**07** M. y Wawr Tregarth. Gwisgoedd drwy'r degawdau - Menna Gilbert. Capel Shiloh am 7.30.
**08** Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
**10** Noson Agoriadol Cymdeithas Jerusalem gyda Hogia'r Bonc am 7.00.
**14** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
**14** Cymdeithas Hanes D. Ogwen gyda Barry 'Archie' Jones. Festri Jerusalem am 7.00.
**15** Pnawn Difyr. Te Pnawn a Wil Tân yn Neuadd Ogwen am 13.30. Mynediad am ddim.
**17** Casglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Top Cefnfaes am 6.45.
**19** Steve Eaves a Rhai Pobol. Neuadd Bentref Rhiwlas am 8.00.
**22** Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
**22-26** Arddangosfa dathlu 50 Llais Ogwan. Cefnfaes. 10.00 – 4.00.
**25** Noson Dathlu 50 Llais Ogwan. Bwyd ac Adloniant - Clwb Rygbi Bethesda.
**28** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
**29** Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Tachwedd**

**02** Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Top Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**11** Cymdeithas Hanes D. Ogwen gyda Howard Huws. Festri Jerusalem am 7.00.
**20** Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £50.00 | Emlyn, Anwen a'r teulu, Tregarth, er cof annwyl iawn am eu mab Carwyn, a fuasai'n 50 oed y mis hwn. |
| £5.00 | Sandra Howell, Rachub. |
| £2.30 | Mrs. M. Bowen Rees, Llanllechid |

**Diolch yn fawr**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Llongyfarchiadau**

Braf yw cael dechrau'r golofn gyntaf ar ôl gwyliau'r haf drwy longyfarch rhai o bobl ifanc y pentref ar eu hamrywiol lwyddiannau yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr i Owain Edwards, Caeau Gleision, ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A. Bu Owain yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan ac mae'n edrych ymlaen at fynd ymlaen i Brifysgol Caerdydd i astudio Peirianneg Sifil. Pob llwyddiant iti i'r dyfodol, Owain.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Osian Wyn, Y Goeden Eirin, Bron y Waun ar lwyddo i ennill 4B yn ei arholiadau Lefel A yr haf yma. Mae Osian hefyd wedi derbyn dwy ysgoloriaeth a bwrsari i astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yn yr hydref. Pob dymuniad da i tithau, Osian, wrth iti ddechrau ar dy gwrs gradd cyn bo hir rŵan.

Ac mae'r ddau frawd o Gaeau Gleision, Dylan a Steffan Alford yn mynd o nerth i nerth yn y maes chwaraeon. Rygbi yw maes Dylan a bydd yn symud ymlaen o'r Academi Iau i'r un hŷn ar gyfer 2024/25 a bydd ar gytundeb ar y cyd rhwng Rygbi Gogledd Cymru a'r Scarlets. Bydd yn parhau i ddatblygu ei sgiliau gyda'r RGC yn ystod y ddwy flynedd nesaf cyn symud ymlaen i'r gorllewin yn ei drydedd flwyddyn.

Ochr yn ochr â hyn bydd Dylan naill ai'n cael lle ar raglen Prentisiaeth Undeb Rygbi Cymru neu'n dechrau ar ei astudiaethau ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Yn y cyfamser mae Steffan, ei frawd iau, wedi arwyddo cytundeb dwy flynedd gyda Chlwb Pêl-droed Caernarfon. Yn ôl y Clwb: 'Bydd yr amddiffynnwr ifanc, sydd wedi serennu i'n Hacademi gan ymddangos i'r tîm cyntaf yn mynd ar fenthyg i Bwllheli am weddill y tymor hwn.' Gwych hogia!

**Brysiwch wella**

Da deall fod Tony Jones a Jean Vaughan Jones bellach adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion atoch eich dau gan ddymuno adferiad llawn ichi. Cofion hefyd at Iona Jones sydd bellach yn derbyn gofal yng nghartref Gwynfa, Caernarfon.

**Clwb Crefftau**

Mae'r Clwb yn parhau i fod yn brysur. Fe fu Linda Jones yn helpu'r aelodau i wneud prosiectau gwahanol yn ei dosbarthiadau peiriant gwnïo a chynhyrchodd yr aelodau grefftau amrywiol ar gyfer stondin Clwb Gwnïo Llanberis mewn noson goffi yno'n ddiweddar er budd 'Breast Cancer Now'.

Mae'r Clwb yn cyfarfod ar nosweithiau Llun rhwng 7 a 9 yn ystafell gymunedol y Neuadd.

**Cyfeillion Rhiwlas**

Yn dilyn te bach 'Cacen a Choffi' llwyddiannus arall ar Fedi 14 mae'r Cyfeillion yn cynnal eu **Noson Bingo** ddiweddaraf rhwng 6 .15 ac 8.30 o'r gloch yn y Neuadd **nos Sadwrn, Fedi 28**. Croeso cynnes i bawb.

**Prif Lenor Pontypridd**

Hyfryd oedd gweld Eurgain Haf yn codi ym Mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y prynhawn Mercher i dderbyn y Fedal Ryddiaith am ei nofel 'Y Morfarch Arian'.

Ym mhentref Penisarwaun y magwyd Eurgain, yn ferch i Ann a Dafydd Evans, ond bu'n byw ym Mhontypridd ers rhai blynyddoedd bellach ac mae'n gweithio i elusen Achub Y Plant.

Ond mae gan Rhiwlas hawl arni hi hefyd! Yn y pentref y ganed hi ac yma hefyd y cynhaliwyd ei gwasanaeth priodas. Llongyfarchiadau cynnes iawn iti ar dy gamp, Eurgain.

**Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:
**Medi 22** – Dr. Ian Morris
**Medi 29** – Dewi Morris
**Hydref 6** – Ellie Jones
**Hydref 13** – gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal y Parch. Olaf Davies.


Croeso cynnes i bawb.



### Clwb Rhiwen

I gloi'r tymor mwynhaodd nifer o aelodau Clwb Rhiwen ymweliad â Pharc Gwledig Glynllifon ym mis Gorffennaf. A dyma nhw'n cael blas ar baned yn y caffi yno ar ddiwedd eu taith!

Mae'r Clwb, sy'n agored i bawb dros 50 oed, yn cyfarfod yn y Neuadd ar y trydydd prynhawn Mercher yn y mis am 2 o'r gloch. Croeso i aelodau hen a newydd.




**Gig Steve Eaves – nodwch y dyddiad!**

Fe fu Steve yn brysur yn cynnal gigs mewn sawl lleoliad yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf ond ar nos Sadwrn, Hydref 19, bydd cyfle inni ei glywed yn canu ar ei stepen drws ei hun – yn y Neuadd!

Bydd y gig gan Steve a Rhai Pobl yn dechrau am 8 o'r gloch (drysau ar agor am 7) a phris y tocynnau yw £12.50. Bydd bar a lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson. I archebu tocyn cysylltwch efo Gill neu Sharon ar ôl 6 p.m. ar 07392 859828/07908 060535 neu e-bostiwch gigs@neuaddrhiwlas.cymru

Y cyntaf i'r felin fydd hi, felly archebwch eich tocyn mewn da bryd. Bydd mynediad drwy docyn yn unig.

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Aelodau newydd o Orsedd y Beirdd**



Llongyfarchiadau i ddau o Llanllechid ar gael eu hurddo i'r Orsedd eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Lowri Evans, Mignant, oedd un - a urddwyd ochr yn ochr â'i chwiorydd, Heledd a Brengain, a Gwydion Rhys, Gwenlais, Bron Arfon, oedd y llall. Urddwyd Lowri ar sail ei gradd yn y Gymraeg, ac urddwyd Gwydion am iddo ennill Tlws y Cyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd.

**Cydymdeimlo**

Ar ddiwrnod olaf o fis Gorffennaf bu farw un o gymeriadau'r pentref. Roedd Mrs Elizabeth Jones neu fel yr adweinid yn lleol, Betty Percival yn 93 mlwydd oed ac un o gymeriadau hoffus yr ardal.

Meddai ar gymeriad tawel a hoffus gyda gwên rhadlon bob amser i gyfarch pawb. Roedd y teulu yn bwysig yn ei bywyd, gyda'r hogiau, eu gwragedd a'u plant yn chwarae rhan blaenllaw yn ei bywyd. Yn wir roedd y teulu i gyd yn chwarae rhan bwysig yn ei bywyd. Rhoddodd gefnogaeth llawn i'w diweddar ŵr, Dic, wrth iddo yntau chwarae rhan ym mywyd yr ardal drwy wasanaethu ar Gynghorau lleol a Sirol am flynyddoedd.

Roedd Betty yn ffyddlon i lawer o gymdeithasau ac achosion drwy'r Dyffryn. Yn gefnogwraig brwd o'r Blaid Lafur ac eto prin fyddai ganddi air drwg am aelodau o bartïon gwleidyddol eraill.

Hoffai fynychu unrhyw gyngerdd neu ddigwyddiad a gynhelir yn y pentref. Mae nifer o luniau ohoni mewn amryw o wisgoedd ffansi mewn carnifal lleol yn tynnu gwên i wyneb llawer wrth i ni ei chofio. Aethai Betty i hwyl go iawn wrth gymryd rhan ar sawl achlysur.

Wrth gydymdeimlo gyda'r hogiau a'r teulu oll yn eu profedigaeth, fe gofiwn ninnau, fel trigolion Rachub am wraig garedig, cymdogol a hynaws iawn. Bydd ei gwên rhadlon yn fyw yng ngof llawer iawn yn yr ardal.

**Gwellhad Buan**

Gobeithio fod Gillian Griffiths, Foel Ogwen, Llanllechid

**Clwb Gwau Carmel**

Bu farw un o aelodau mwyaf selog y clwb, sef Mrs Carol Griffiths, Bron Bethel, yn ystod mis Gorffennaf.

Roedd hi'n ffyddlon iawn yng ngweithgareddau'r Clwb Gwau i gyd ac yn y Te Bach hefyd.

Roedd Carol yn un ddiwyd iawn gyda'r gwau ac mi wnaeth hi wau beth wmbreth o gapiau a phlancedi er mwyn Ymgyrch Nadolig y Plentyn, a dillad i fabanod newydd-anedig yn Affrica.

Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Alan ei gŵr, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Mi fydd hiraeth arnom ni amdani hi pan fyddwn ni'n cyfarfod ar brynhawniau Llun unwaith eto yn y clwb.

Diolch hefyd i deulu Carol am eu rhodd nhw er cof amdani hi i Chwiorydd Carmel. Diolch i'r Parchg Dafydd Coetmor Williams am wasanaethu.

## Capel Carmel Llanllechid

**Gwasanaethau**

(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)

Medi 22: Parchg. Olaf Davies.
Medi 29: Parchg. Mererid Mair.
Hydref 6: Parchg. Sara Roberts.
Hydref 13: Oedfa.
Hydref 20: Diolchgarwch.
Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur ar nos Wener am 6.30.
Croeso cynnes i bawb.

**Colli Aelod**

Bu farw un o aelodau hynaf Carmel, sef Mrs Betty Jones, Caergroes a oedd yn preswylio ym Mhlas Ogwen yn ddiweddar.

Roedd Betty yn un o blant Carmel ac wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd ei hoes. Roedd hi'n chwith ganddi hi fethu â medru mynd i'r capel dros y blynyddoedd diwethaf yma.

Diolch i'r Parchg Dafydd Coetmor Williams am y gwasanaeth yn y capel ac ym Mynwent Coetmor. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo'r meibion, Gareth, David, Trefor ac Alwyn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.



**Bedydd**

Ar ddechrau mis Gorffennaf, roedd gennym ni achlysur hapus iawn i'w ddathlu yng Ngharmel sef gweinyddu bedydd Cynan, mab ifanc Huw Pritchard (gynt o Fron Arfon) a'i wraig Angharad.

Cymerodd Siwan, chwaer fawr Cynan, ofal mawr o'i brawd yn ystod y gwasanaeth ac roedd hi yn y sêt fawr yn gwylio'r cwbl.

Pob bendith ar y teulu bach yma sy'n byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ac mae pawb ohonom ni yn Rachub yn edrych ymlaen bob amser at eu gweld nhw'n ymweld â ni yn y capel. Ar gais Huw a'i deulu, y Parchg Dafydd Coetmor Williams oedd yn gweinyddu.

**Dymuniadau Da**

Rydan ni'n anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mr Gareth Jones, Tan y Garth.

Mae Gareth wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers wythnosau erbyn hyn, ond rydan ni'n falch o gael deall ei fod yn gwella rhyw ychydig ac y bydd yn cael ei symud i Ysbyty Eryri yn fuan.

Rydan ni'n anfon ein cofion gorau at Mrs Valerie Thomas a Mrs Glenys Jones sydd fel ei gilydd yn preswylio yng Nghartref Plas Ogwen.

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**

Llongyfarchiadau i un o aelodau Clwb Dwylo Prysur ar lwyddo yn ei harholiadau Lefel A yn ddiweddar, sef Betsan Griffith, Ffordd Bangor. Rydan ni'n dymuno yn dda iawn iddi hi wrth iddi ddechrau yn y Brifysgol yng Nghaerdydd ym mis Medi. Pob hwyl, Betsan!

Mi fydd yr ysgol Sul a'r clwb dwylo prysur yn ailddechrau ym mis Medi. Mae croeso mawr i blant ac ieuenctid ymuno hefo ni o'r newydd, ac mae'r drws yn agored i bob un sydd wedi bod o'r blaen, wrth gwrs.

Mi fydd y Te Bach yn cael ei gynnal yn ystod y mis yma, ar 23ain o fis Medi am 2:30-4:00pm. Croeso mawr.

## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhelir cyfarfod Mis Mehefin ar nos Iau 13fed o Fehefin yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Lowri Evans.

Cynhaliwyd sesiwn gyntaf brosiect celf safle bws Talybont ar ddydd Sadwrn 25fed o Fehefin. Mae'r artist lleol Elen Williams wrthi'n paratoi cynllun i'r gwaith. Edrychwn ymlaen i weld y cynllun. Mi fydd sesiwn arall yn cael ei threfnu yn fuan. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org am fwy o wybodaeth



Mae'r peiriant torri gwair wedi cyrraedd Talybont. Braf cael gweld y cae'n edrych mor dda! Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Os oes ddiddordeb ganddoch, cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.

Ymunodd Meleri Davies a Donna Watts o Bartneriaeth Ogwen â ni yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Cafwyd cyflwyniad am holl waith da Partneriaeth Ogwen yn yr ardal, gan gynnwys prosiectau Yr Hen Bost, Cludiant Cymunedol, Hwb Ogwen a Chanolfan Cefnfaes. Yn ogystal a rhai o'r brosiectau llai.

Cafwyd cyfle i drafod cefnogaeth yr hoffem ei gael at Gae Chwarae Talybont, cymorth i ymgeisio am grant Loteri a Chynnal a Cadw ardaloedd gwyrdd.

Hefyd, trafodwyd y syniad o gynnal gweithgareddau i blant ar y Cae Chwarae neu gynnal digwyddiadau yn Festri'r Capel.

Hoffem ddiolch i Meleri a Donna am eu hamser, ac edrychwn ymlaen i'w croesawu yn nol yn fuan.

Ac yn olaf, mae trefniadau yn ei lle i dorri y gor-tyfiant ar nifer o'r llwybrau cyhoeddus yn y plwyf.

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Dymuniadau gorau**

Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i Linda a Steve, Rhyd-y-Groes. Mae'r ddau wedi wynebu heriau meddygol dros yr wythnosau diwethaf ac yn derbyn triniaethau mewn gwahanol ysbytai.

**Llongyfarchiadau**

Bu i Ysgol Glanaethwy brofi gryn lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol 2024 ac yn Eisteddfod Llangollen cyn hynny. Mae hyn y dystiolaeth o waith creadigol a hyfforddiant o'r radd flaenaf gan Rhian a Cefin Roberts, Pentir.

**Cyngerdd Telyn yn Eglwys Sant Cedol Medi 5, 2024**

Erbyn i'r rhifyn yma o'r Llais ddod o'r wasg bydd y cyngerdd uchod wedi ei gynnal. Cyngerdd oedd hwn gan delynorion proffesiynol ifanc sef, Glain Dafydd a Natalie Lurie. Mae'r ddwy yn byw ac yn cynnal eu gwaith proffesiynol yn Llundain gan hefyd deithio a pherfformio traws y Deyrnas Unedig, gwledydd Ewrop ac ymhellach.

Bu i Glain ennill Ysgoloriaeth Bryn Terfel gan astudio ym Mharis a'r Royal Academy of Music yn Llundain.

Mae Glain yn enedigol o Bentir, yn ferch i Jên ac Einion Dafydd a chwaer i Marteg, Wesyn a Cedol.

**Cyngor Cymuned Pentir**

Deallwn nad yw John Lewis yn aelod o Gyngor Cymuned Pentir mwyach ac felly, hoffem ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r ardal dros y blynyddoedd diwethaf.

## Eglwys Sant Cedol, Pentir

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod a'r yr 2ail a'r 4ydd Prynhawn Gwener o bob mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Tê Bach nesaf ar y 2ail o Hydref. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisen a sgwrs.

**Hamper Misol**

Rydym cynnal Raffl o Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i cynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Gorffennaf oedd Nia Roberts yn roddedig gan Alison, enillydd yr Hamper Mis Awst oedd Mair Roberts yr hamper yn roddedig James. Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Bedydd**

Bora Sul y 11 o Awst bedyddiwyd Taran mab bach Anya a Terry Jones o Caernarfon, Gyda'r Parch Ddr. Gareth Lloyd yn arwain y gwasanaeth. Braf oedd cael croesawu y teulu ein plith.

**Dyddiadau i'ch dyddiadur**

Fydd Eglwys St. Cedol yn cynnal y digwyddiadau canlynol yn ystod misoedd yr Hydref a'r Gaeaf.

**23.11.24** – Ffair Nadolig, 1.30 – 4yh
**24.11.24** – Gymanfa Garolau
**8.12.24** – Cyngerdd Nadolig, 5.30yh
**14-15.12.24** – Gwyl Coeden Nadolig, 1.30-4yh

Os hoffai unrhyw berson, cymdeithas neu fusnes arddangos coeden Nadolig wedi ei hardduno yn yr wyl cysylltwch a Nia ar 07719 918686 neu Eirwen a'r 07732 118129
Mwy o fanylion i ddilyn yn nes at yr amser.

**Gwasanaethau'r Sul**

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwen?**
Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

**Mark Davies**
0 7 4 4 7 8 0 4 1 1 0
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Ysbyty**
Da yw clywed fod Mike Bowen, Tyddyn Llywelyn, Waen Wen yn gwella wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Walton yn Lerpwl, pob dymuniad da am adferiad buan.

Pob dymuniad da i Eirlys Edwards, 51 Bro Infryn sydd yn Ysbyty Gwynedd, brysiwch wella.

**Damwain**
Yn ystod yr haf syrthiodd Beryl Bryant, 12 Bro Infryn, gan adael golwg difrifol ar ei wyneb. Da yw deall ei bod yn dod at ei hun erbyn hyn.

**Cylch Glasinfryn**
Wedi seibiant bach dros yr haf bydd y Cylch yn ail ddechrau ar11 Medi gyda sgwrs gan Jake Davies o'r Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ar "Prosiect Siarc" y mae wedi bod yn gyfrifol amdano.

Ar 9 Hydref daw Ann Catrin, Gemydd a Gofaint o Dregarth atom i sgwrsio am ei gyrfa a'i gwaith. Edrychwn ymlaen yn fawr am y ddwy sgwrs ddiddorol hyn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno a'r Cylch 'rydym yn cyfarfod ar bnawn yr ail ddydd Mercher o'r mis am 2yp yn y Ganolfan, cewch groeso cynnes!

**Bingo Bach**
Bydd noson Bingo yn cael ei chynnal yn y Ganolfan ar 27 Medi am 7yh gyda'r elw yn mynd tuag at Nyrsus MacMillan. Fel arfer byddwn yn ddiolchgar iawn o gyfraniadau tuag at y raffl, tombola a gwobrau Bingo. Edrychwn ymlaen at noson o hwyl tra'n cefnogi achos da!

**Arddangosfa Arlunio**
Cynhaliwyd Arddangosfa flynyddol Grŵp Arlunio Glasinfryn yng Nghanolfan Glasinfryn am dri diwrnod o 22-24 Awst. Daeth nifer dda o ymwelwyr ar draws y tri diwrnod i weld amrywiaeth o waith arlunio o ddyfrlliw i waith acrylig a gwaith defnyddio pastel ac oel.

Prif ymateb y rhai ddaeth oedd gweld cymaint o allu mewn un grŵp fechan sydd yn cyfarfod bob bore Gwener yn y Ganolfan drwy'r flwyddyn. Diolch yn fawr i Gyngor Cymuned Pentir am gefnogi y grŵp a hynny ers sawl blwyddyn.





**Profedigaeth**
Ar 18 Gorffennaf bu farw Rosemary Jones,9 Bro Infryn yn Ysbyty Gwynedd. Bu'r angladd yn eglwys Sant Cedol, Pentir, ar 31 Gorffennaf. Anfonwn ein cydymdeimlad at Ieuan ei gŵr, ei mab Dylan a'i bartner Diane a'i wyrion a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Ar 13 Awst bu farw Carol Amy Violet Jones, Heulfan, Glasinfryn, yn Ysbyty Gwynedd wedi gwaeledd hir. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr Ken a'r genod Sharon (sydd yn byw yn Awstralia) Trisha a Joanne a'i wyrion a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ar 28 Awst.

'Roedd Carol yn wyneb adnabyddus pan yn gweithio yn y fferyllfa ym Meddygfa Bron Derw a chyn hynny yn Fferyllfa Meshach Roberts ar y Stryd Fawr ym Mangor. Bob amser yn gyfeillgar a gwen parod ganddi. Bu'n gefnogol iawn pob amser i weithgareddau lleol cyn ei salwch.

'Roedd yn chwaer i Rosemary, uchod, ergyd lem i'r teulu o fewn mis i'w gilydd.





## Llwyddiant yn Sioe Môn

Daeth llwyddiant i Lydia ac Elsi Griffiths, Caer Wredog, Waen Wen yn Sioe Môn ym mis Awst pan oedd y ddwy yn cystadlu am y tro cyntaf yn adran Clwb Marchogaeth Môn. Daeth Elsi yn ail yn ei adran a Lydia yn drydydd, tra bod Lydia yn ail yn ei dosbarth, ac Elsi yn 4ydd yn ei dosbarth yn yr Adran " Handy Pony". Llongyfarchiadau i'r ddwy!

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái,
Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Ysgol Llandygai**
Diolch o waelod calon i chi ddisgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Llandygai am eich caredigrwydd ar achlysur fy ymddeoliad fel athrawes yn Ysgol Llandygai.

Pleser a braint oedd cael dysgu yn yr ysgol am 34 o flynyddoedd.

Diolch hefyd i gyn aelodau o staff yr Ysgol ac aelodau o'r gymuned ddaeth i sgwrsio dros baned a lluniaeth am yr amseroedd da.

Pob dymuniad da i chi gyd a diolch am y geiriau caredig. Diolch yn fawr,
**Manon Dauncey Griffiths**


SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn

07394 905881

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL


## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Croeso'n ôl!**
Daeth y gwyliau i ben a chroesawn yn ôl blant a staff Ysgol Llandygai ar gyfer Tymor yr Hydref. Croeso arbennig i'r Pennaeth newydd, Ms Delyth Roberts, sydd wedi croesi Bont Menai er mwyn arwain yr ysgol. Edrychwn ymlaen at ei harweiniad a'i gweledigaeth. Fel ysgol eglwysig mae cysylltiad clos yr eglwys yn bwysig gyda thri aelod o'r gynulleidfa a'r Ficer ar y Bwrdd Llywodraethol.

**Achlysur Hapus**
Dymunwn pob hapusrwydd i'r cwpl ifanc, Alec Bedwyr Williams ac Emma Lauren Huskisson o Bethesda ar eu priodas. Priodwyd y ddau gan y Parchedig Ganon Emlyn Williams, ffrind teuluol, yn St Tegai ar Orffennaf 20fed. Er y glaw roedd Bedwyr ac Emma yn bictiwr o lawenydd a chariad.

**Dymuniadau Gorau**
Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Pauline Edwards, yr Hen Dŷ Ysgol, sydd wedi torri ei phelfis ar ôl codwm yn ei chartref. Hefyd adferiad buan i Geraint Gill, ein organydd, sydd yn disgwyl triniaeth ysbyty dros yr Hydref.

**Eglwys Agored**
Erys yr eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

**Diweddariad am y Clochdy**
Fe gofiwch o rifyn Mehefin o'r Llais fod cais St Tegai am hawleb (caniatâd cynllunio esgobaethol) ar gyfer cynllun i atal lleithdra yn y tŵr wedi ei wrthod oherwydd diffyg manyldeb gan y cwmni ffenestri arbenigol. Erbyn heddiw, mae'r cais wedi ei dderbyn a gofynnwyd i gwmni lleol, Highlife Rope Access, ddringo'r tŵr i wneud archwiliad o'r to. Mae'r mynediad arferol i do y tŵr yn rhy peryglus ar hyn o bryd, felly mae angen dringwyr arbenigol i wneud y gwaith o archwilio.

**Diolchgarwch 2024**.
Cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch St Tegai ar ddydd Sul, Hydref 13fed am 11.00 o'r gloch.

**Gwasanaethau**
***Ar y Sul***
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

***Ar Ddydd Mercher***
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Dr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

## Dathlu Priodas a Bedydd yn yr un teulu



Roedd teulu Ann (Williams) a Rhian (Llewelyn Jones) yn brysur iawn ym mis Awst gyda dathliadau ar gyfer mab a wyres Rhian.

Ar Awst 3ydd priododd Huw, ei mab, ag Eira Catrin Thomas yng Ngwesty Portmeirion. Priodas hudolus yn y pentref Eidalaidd ei naws. Yn dilyn yr un trywydd, i'r Eidal aeth y cwpl ar eu mis mêl, i ynys Sisili yn benodol. Cyn iddynt deithio, ymunodd y ddau a weddill y teulu am achlysur teuluol arall sef bedydd.

Daeth teulu, ffrindiau lleol ac o bell a chynulleidfa St Tegai a St Cross, Talybont i'r eglwys ddydd Sul, Awst 11eg i fedydd Efa Wyn, merch fach Gwenan a Pete Llewelyn Atkinson. Er yn byw yn Ealing, mae Gwenan wedi cadw ei haelodaeth yn St Tegai ac yn mynychu'r gwasanaethau pan fydd i fyny yng Ngogledd Cymru. Ar ôl y gwasanaeth gwahoddwyd y gynulleidfa i gyd i fwynhau lluniaeth ysgafn a chacen bedydd gyda'r teulu bach. Roedd chwaer fawr Elin wrth ei bodd yn rhedeg o gwmpas i gyfarch pawb.







CLWB RYGBI
BETHESDA
1993 - 94

BETHESDA V LLANGEFNI
Sadwrn / Saturday Ebrill 2 April 1994
3.00pm















Fel arfer roedd croeso gofalus yn cael ei gynnig i estroniaid a rhaid oedd iddyn nhw brofi eu medrau ar y cae, ar y maes hyfforddi ac yn y bar cyn iddyn nhw gael eu derbyn go iawn!

Un gŵr sy'n ran annatod o hanes y clwb ydy Eifion Davies, neu Spud, fel mae pawb yn ei adnabod. Mae o'n cofio'r hwyl a'r gwaith caled a'r teimlad o bawb yn dod at ei gilydd dros y clwb:

"Lle bach ydy'r Dyffryn yma ond mae na lot fawr o dalent lleol wedi datblygu a gwneud y clwb yn falch. Da'ni bob tro yn cystadlu efo clybiau mwy, ond roedd pawb y gwybod fyddai dod i lawr i Doldafydd byth yn hawdd."

Mae Spud wedi gwneud bron pob swydd y gysylltiedig â'r clwb, chwaraewr, hyfforddwr, cadeirydd, groundsman, a llawer o bethau eraill ond mae'n ddiolchgar iawn i bawb ddaeth at ei gilydd i wneud yr holl beth yn bosibl: "Un o'r petha dwi'n gofio ydy pan oeddan ni yn paratoi Doldafydd fel cae chwarae, a grŵp ohonom ni yn cerdded lawr stryd Pesda efo'r postiau rygbi yn barod i'w gosod. Ychydig o sioe oedd o, ond mi wnaeth hwnna ddangos i pawb ... da ni yma!"

Erbyn canol yr 80au roedd trafodaethau wedi eu cynnal i geisio prynu cae Doldafydd, cartref y clwb hyd heddiw. Un o hoelion wyth y clwb a chyn-gadeirydd, Alwyn Evans sy'n dweud y stori: "Erbyn hynny, roeddem ni wedi dechrau ar ymgyrch i brynu Dolddafydd o Stâd y Penrhyn. Dwi'n meddwl mai tua £50,000 oeddan nhw eisio ... oedd yn grogpris am 13 acar o dir amaethyddol (gwerth tua £2000 yr acar ar y pryd). Ond roedd rhaid i ni dalu i sicrhau'r rhyddfraint ar y prif gae a'r caeau eraill.

Dwi'n cofio mynd draw i Rowen, Dyffryn Conwy hefo Dafydd McCarter i weld Wyn Roberts – yr Arglwydd Wyn Roberts wedyn – i weld os bydden ni'n gallu cael grant o rywle. Ac yn wir, mi gawson ni baned o de a bisgedi neis gan ei wraig o, a rhywsut mi ffeindiodd o grant o rywle yn y Swyddfa Gymreig oedd yn ddigon, gyda grant ychwanegol gan Gyngor Arfon, i dalu am y caeau!"

Ddiwedd yr 80au a dechrau'r 90'au cafodd y clwb fwy o grantiau gan Gronfa'r Loteri i adeiladu'r stafelloedd newid newydd sy'n ffurfio rhan o'r clwb hyd heddiw, a gosod llifoleuadau ar y caeau i gyd. Mae Alwyn Evans yn dweud: "Mae angen i bobl gofio y ddyled sy' gan y Clwb Rygbi i'r diweddar Dafydd McCarter – a oedd yn allweddol wrth geisio am y grantiau."

Roedd y clwb cymdeithasol ei hun wedi symud i'r hen adeilad clwb pêl-droed i fyny'r allt. Roedd yn gartref newydd eto a cafwyd cyfnod da yno cyn i'r adeilad ddirywio. Erbyn hyn, stad o dai newydd sy'n sefyll






Cwpan Swalec
Rownd 4
BETHESDA
CAERDYDD
20/12/2008
Dôl Ddafydd, Bethesda - 2.00 p.m.
£5.00










108

CWPAN Y BRAGWYR/BREWERS CUP
ROWND 4 4th ROUND

CLWB RYGBI BETHESDA
V
WATTSTOWN

2 o'r gloch SADWRN, 14 IONAWR, 1989
2 p.m. SATURDAY, 14th JANUARY, 1989

MATCH BALL DONATED BY SPAR GLANOGWEN
and H. Ron Thomas

MATCH OFFICIALS:
Referee: ROB OWEN (Mid-Wales District)
Touch Judges: R. HUGHES (Mid-Wales District)
A.N. OTHER (N. Wales District)

MYNEDIAD DRWY RAGLEN — ADMISSION BY PROGRAMME
OEDOLION/ADULTS £1.00 — PENSIYNWYR/OAP, PLANT...





yno wrth ochr y Feddygfa.

Wedyn o gwmpas 2015, roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu prosiect uchelgeisiol i adeiladu'r clwb arbennig sydd ganddom ni heddiw. Clwb mae nifer yn ddweud sydd heb ei ail drwy Gymru.

Roedd Wil Sandison a phwyllgor y clwb yn allweddol yn sicrhau arian loteri i wneud y freuddwyd yn bosib. Ac erbyn hyn mae wedi troi yn galon i'r gymuned a does na ddim llawer o lefydd gwell i fod na sefyll ar y balconi yn yr haul yn gwylio gem o rygbi wrth gael llymaid.

Ond mae'n fwy na rygbi dynion erbyn hyn; mae cannoedd o blant ifanc y dyffryn yn rhan o dimau ieuenctid, mae cinio dydd Sul bob wythnos yno ac mae nifer o glybiau a chymdeithasau yn cyfarfod yn rheolaidd yno. Mae Iain Buchanan, un o aelodau'r pwyllgor yn dweud: "Da ni'n falch iawn o weld y clwb yn llwyddo a tîm ifanc yn datblygu i gario bob dim ymlaen. Ond mi roedd yn gorfod bod yn fwy na rygbi, felly mae ganddom ni rywle fedran ni groesawu bob math o bobl rwan a mae hynna yn grêt i bawb."

Mae Spud yn dweud mae buddugoliaeth fwyaf y clwb oedd yn yr hen Gwpan



Schweppes pan aeth Pesda i ffwrdd i Tonmawr ger Castell Nedd, gwrthwynebwyr o safon go iawn.

Roedd nifer o chwaraewyr ar goll gan yr ymwelwyr ond rhywsut llwyddwyd i ennill y gêm 13-11 diolch i esgid Rhys Hywel. Ond roedd y gêm hon hefyd yn nodi'r tro cyntaf i'r Kiwi mwyaf poblogaidd yn Bethesda i gyflwyno ei hun. Gêm gyntaf Bill Huaki oedd hon wrth iddo chwarae i'r clwb ac ysbrydoli'r hogia cyn iddo erioed gyrraedd y pentref! Mae statws Bill fel 'legend' yn y clwb yn gwbl ddiogel.

A'r gêm fwyaf a chwaraewyd ar Doldafydd erioed? Does na ddim amheuaeth mai'r ornest yn erbyn Caerdydd yn Nghwpan SWALEC yn 2008 oedd hon. Gêm wych gyda perfformiad arbennig gan yr hogiau wrth golli 55-17 i dîm a nifer o gapiau dros Gymru yn eu plith. Roedd ymhell dros 1000 o bobl yn gwylio'r gêm y prynhawn yna.

Yn anffodus i Spud, mi oedd o wedi bwcio gwyliau i Tenerife ar yr un pryd, a bu raid iddo hedfan adref yn gynnar i sicrhau ei fod yno ar gyfer y diwrnod mawr!

Mae'n bwysig iawn hefyd nodi llwyddiant y clwb yn ennill Cynghrair Gogledd Cymru yn 1999 gyda Shaun Dignam yn gapten, o bosib y garfan gryfaf gafodd y clwb erioed.

Spud sy'n crynhoi'r peth efo'r gair olaf: "Mae rygbi yn gem sy'n rhoi ffrindiau oes i ti. Mae gan Bethesda ffrindiau yn bron iawn bob clwb yng Nghymru a mae nifer ohonom ni wedi cael cyfle i deithio'r byd oherwydd y clwb. Fasa fo ddim yn bosib heb i bawb wneud eu rhan a gweithio efo'n gilydd ond dwi'n siŵr ar ryw bryd mae pob tŷ yn Pesda wedi cael rywbeth i wneud efo'r clwb. Mae o wedi bod yn bleser."

Gorau Chwarae Llawenydd yn wir!

**Trystan Pritchard**

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Wel dyna braf ydi dod nol i ryw fath o normalrwydd wedi cyfnod yr Haf ! Swil iawn oedd yr haul i ddod allan i'n cynhesu a gwenu arnom ni leni ond dyna ni, gallwn fwynhau Haf Bach Mihangel hwyrach cyn wynebu'r Hydref. Braf iawn oedd mwynhau arddangosfa Gelf Pete Smith yn y Ganolfan Gymdeithasol ar ddiwedd Mis Awst a diolch iddo am fynd ati i baratoi ac arddangos ei waith ac am y croeso ganddo fo a'i briod i'r Ganolfan.

**Dathlu Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau i Allison ac Alwyn Ellis, 41 Tal y Cae, sydd yn dathlu penblwydd priodas arbennig iawn ar Fedi 8, sef 40 o flynyddoedd. Mae eu plant Iwan a Fflur a'r teulu ynghyd a'u cymdogion a ffrindiau am ddymuno llawer iawn eto o flynyddoedd hapus a dedwydd i chi eich dau. Pob dymuniad da.

**Profedigaeth**
Trist yw cofnodi y bu i Mair Owen /Nyrs Mair farw yn Plas Ogwen , Bethesda ar Awst 12, 2024, a hithau yn gant oed. Gynt o Gwel y Don, Craig y Pandy, Tregarth. Roedd Mair yn fodryb hoffus i Ann a Selwyn, hen fodryb i Jona, Dion a Heledd a hen hen fodryb i Elai, Megan a Dwynwen.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Y Gelli, Tregarth ar Awst 20.

Dymuniad y teulu yw datgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd atynt fel teulu yn eu profedigaeth o golli Mair.

Fel ardal gwyddom am waith Nyrs Mair yn ardal Dyffryn Ogwen a cofiwn am ei gofal a'i charedigrwydd i gleifion a'u teuluoedd am flynyddoedd lawer yn ein plith.

Cydymdeimlwn gyda Peter Jones a'r teulu, Sling, yn y brofedigaeth fawr o golli ei fam, sef Mair Jones, Maes y Dref, Bangor, ar Orffennaf 4, yn 94 mlwydd oed.

Roedd yn wraig i'r diweddar Alun, yn fam i David a Peter, yn fam yng nghyfraith i Anna ac yn nain hoffus I Llyr, Rhys, Elan ac Aran. Colled fawr i chi i gyd fel teulu. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Orffennaf 16.

**Yn yr Ysbyty**
Bu amryw o drigolion y pentref mewn ysbytai yn ddiweddar a dymunwn wellhad llwyr a buan i chi i gyd. Yn eu plith mae Linda Owen, Ty'n Lon; Olga Davies, Hen Berllan, Dob; Helen Wyn, Bro Derfel, Anwen Griffiths a John Davies, Tanysgrafell.

Da ydi deall fod Maud Griffiths, Gilfach, Dob, hefyd yn cryfhau ac yn gwella. Ein cofion atoch i gyd ac i eraill o gwmpas y pentref sydd ddim yn teimlo'n rhy dda ar hyn o bryd. Rhowch wybod inni amdanynt, os gwelwch yn dda.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau enfawr i deulu Mali Haf, merch fach i Manon a Geraint Walker, Tanysgrafell, Tregarth gafodd ei geni ar Orffennaf 15.

Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau Nain a Taid, sef Sioned a Paul Davies ac Ann a Simon Walker, ac i'r hen Nain a Taid, Gwen a John, Tanysgrafell. Anrheg gwych i chi i gyd fel teulu.

**Cymdogion newydd**
Ar ddiwedd Mis Awst daeth teulu newydd i fyw i Isallt, Cerig Llwydion, sef Catherine ac Arfon Griffiths a'u merch. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd yn Nhregarth.

**Ymddeoliad**
Ymddeoliad hir a hapus i Bethan Catrin Roberts, Nant yr Eira, Tal y Cae. Bu Bethan yn athrawes Drama yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy ers rhai blynyddoedd a bydd bwlch mawr ar ei hol. Pob dymuniad da i ti!

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Bu rhai o aelodau y gangen yn hynod o brysur yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ym Mis Gorffennaf. Roedd y tîm yn rhan o Dim Rhanbarth Arfon yng Nghystadleuaeth Radi Thomas.

Daeth Tîm Arfon yn ail allan o holl Ranbarthau Cymru. Gwych genod gan fod safon y cystadlu mor uchel.

Rhaid llongyfarch Myfanwy Harper am ddod yn ail am goginio; Margaret Jones yn drydydd gyda Murlun wedi'i wehyddu a Jen Margiad Temple Morris yn ennill y drydedd wobr am greu darn o Grefft yn cynnwys Pedol ceffyl. Y tair yn aelodau yn ein Cangen fach ni yn Nhregarth.

Bydd y gangen yn cychwyn tymor newydd Nos Lun, Medi 9 yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30.

Bydd Mark Roberts a'i gi tywys yn ymuno hefo'r aelodau a gwneir casgliad tuag at Gymdeithas y Deillion. Bydd lluniaeth ysgafn ar y noson.

Cynhelir cyfarfod Mis Hydref, Nos Lun, Hydref 7 yn Shiloh. Cyfarfod yn ymwneud a gwisgoedd fydd y noswaith yma.

Byddai'n braf gweld y gangen yn eangu ac mae croeso cynnes iawn i aelodau newydd, cyn aelodau a'r aelodau presennol. Digonedd o hwyl, nosweithiau addysgol, digonedd o grefftau a chwmnïaeth heb ei ail.

Mae'n wir fraint bod yn aelod o Merched y Wawr!

## Capel Shiloh Newydd, Tregarth

Ar gychwyn Blwyddyn Newydd yn Shiloh da ydi croesawu pawb yn ôl wedi seibiant Mis Awst. Er nad oedd oedfaon yn ystod y mis mae Drws Agored ar fore Gwener wedi bod mor brysur ac erioed a nifer dda o drigolion y pentre a rhai oddi allan i'r ardal yn troi mewn am sgwrs, paned a chwmpeini.

Braf oedd cael croesawu dau o'r ffyddloniaid yn ôl wedi cyfnod mewn Ysbyty sef Islwyn Evans, Llanfairfechan a Helen Wyn, Bro Derfel. Mor braf eich croesawu chi eich dau yn ôl ac wedi gwella.

Bu'n flwyddyn brysur yn Shiloh a da oedd cael croesawu y gantores Lleuwen Steffan i'n plith ar gyfer noson nad anghofiwn amdani yn fuan a'r arddangosfa 'Y Beibl Gwau' fu'n llwyddiant ac a ddenodd gymaint o bobol yma o bod rhan o Ogledd Cymru.

Wel, mae un digwyddiad arall i'w gyhoeddi. Ar Dachwedd 24, 2024, bydd Cymanfa Garolau yma yn Shiloh am 7.30 o'r gloch. Cefin Roberts, Pentir, fydd yn arwain gyda'r unawdydd o Gaernarfon , Meinir Wyn Roberts, a Chôr Glanaethwy yn cymryd rhan.

Bydd elw y Gymanfa yn mynd at atgyweirio Eglwys Sant Cedol, Pentir. Cadwch y dyddiad yn rhydd. Bydd mwy o fanylion yn Llais Ogwan Hydref a Tachwedd.

**Oedfaon Shiloh Newydd**
Pob oedfa am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

***Medi***
**22** Dr Ian Morris
**29** Nerys Griffiths, Caernarfon

***Hydref***
**06** Eric Jones, Bangor
**13** Sul y Diolchgarwch Dafydd Iwan, Caeathro
**20** Huw Pritchard, Llangefni
**27** Geraint Roberts, Llandegfan

**Ieuenctid yr ardal**
Llongyfarchiadau i blant a ieuenctid yr ardal yn dilyn eu canlyniadau ym Mis Awst. Mwynhewch yn eich ysgol neu goleg newydd a chofiwch fwynhau y profiad o gyd weithio gyda ieuenctid eraill o bob rhan o'r wlad.

Bydd rhai ohonoch yn cychwyn ar waith neu brentisiaeth newydd. Gwnewch yn fawr o'r cyfle i eangu eich gorwelion a chofiwch o ble rydych wedi dod! Os yn bell o adra cofiwch nad oes unlle yn well na adra!

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Hoffwn ddiolch i griw o Ysgol Penybryn am eu gwaith yn creu llechi gyda geiriau ac ymadroddion o Iaith Pesda wedi eu hysgythru yn gelfydd iawn arnynt gan gydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau. Dyma ddau ohonynt

**pancan**. Os ydych yn cael codwm sydyn neu syrthio yna efallai bod rhywun yn dweud eich bod wedi cael 'pancan' neu wedi cael damwain car drwy daro wal neu gar arall byddwch wedi cael pancan efo'ch car.




**pledu**. O 'peledu' y daw hwn, ac mae o'n golygu 'lluchio' – "Mae isio rywun ddeud wrth y plant 'na am beidio pledu cerrig."




## Ambell Air ac Ymdrodd

**pincio**. Rhoi colur ar wyneb ydy hwn – "Ew, mae hi wrth ei bodd yn pincio cyn mynd am noson allan."

**swancio**. Gwneud eich hun i edrych yn drwsiadus iawn ydy hyn – "Mae hi'n swancio yn ei dillad newydd."

**eda gyfrodadd**. Sawl edau wedi eu cydblethu i fod yn gryf ydy 'edau gyfrodedd'. Roedd yn arfer bod yn ddywediad i ddisgrifio rhywun o gymeriad cadarn – "Mae hi'n dipyn o eda gyfrodadd."

**yn grand o'i cho'**. Ar ôl pincio a swancio mi fydd y genod yn mynd am noson allan a bydd rhywun yn dweud "Ew, maen nhw'n grand o'u coeau heno!"

**y ddannodd wyllt**. Poen annioddefol mewn dant – "Dw i efo ddannodd wyllt. Fydd raid imi fynd i gael tynnu'r daint drwg 'ma."

**fferru**. "Dw i bron â fferru," meddan ni pan fydd hi'n oer ofnadwy. Ystyr 'fferru' ydi 'rhewi yn syth', ac rydan ni ei ddefnyddio fo hefyd i ddisgrifio rhywun yn aros yn stond mewn braw – "Wnaethon nhw fferru pan glywson nhw'r newydd drwg."

**cicio sodla'**. Bod yn segur ydy ystyr yr ymadrodd yma – "Cicio'i sodla' o gwmpas lle 'ma mae o ar ôl colli'i waith."

**bwch**. Gwryw cwningen, ysgyfarnog, gafr a charw ydy hwn, ond rydan ni'n defnyddio'r gair i ddisgrifio rhywun sarrug – "Roedd o'n sbïo arnaf fi 'fath â bwch."

**nadu**. Ystyr hwn ydy 'atal', 'gwrthod caniatáu' – "Roeddan nhw nadu inni fynd i mewn i'r lle."

**hen gingroen**. Llysieuyn drewllyd ydy cingroen, ac mae'r gair yn cael i ddefnyddio i ddisgrifio rhywun annifyr iawn – "Mae o'n hen gingroen!"

**cledda**. 'Cleddau' ydy hwn, sef gair arall am 'cleddyf', a dyma'r gair fyddai'n cael ei ddefnyddio yn yr ardal.

**clwc**. Wy clwc ydy wy heb gyw ynddo. Mae 'teimlo'n glwc' yn golygu teimlo'n swrth neu'n anhwylus - '*groggy*' yn Saesneg. Hefyd, os bydd rhyw syniad neu awgrym yn ddi-werth a heb fod yn iawn – yn wag – mi ddywedir "Mae 'na rywbeth yn glwc yn yr holl beth."

**tacla**. Mwy nag un 'teclyn' ydy 'taclau. Mi fedr o olygu 'gêr' ac 'offer gwaith' ond mae o hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddifrïo pobol – "Hen dacla drwg ydyn nhw."

**sgwd**. Ystyr hwn ydy ysgytwad, hynny ydy, ysgwyd rhywun yn go egr. "Mi gafodd yr hogyn sgwd go dda gin 'i dad am neud dryga'."

**nain nos**. Sylw angharedig i ddisgrifio rhywun llywaeth, di-help ydy hwn – "Paid â gofyn i hwn'na neud joban iti, mae o fath â nain nos."


**shot hosan**. Cic wael i'r bêl pan yn anelu wrth chwarae peldroed, fel petae'r chwaraewr yn cicio yn nhraed sannau.

Diolch unwaith eto i Sandra Howells o Rachub am ei chyfraniadau cyson. Dyma rai o'r geiriau sy' mynd a bryd Sandra – dipyn o dderyn, y globan, prepian, hen drwyn, mopio, hulpyn, huwcyn cwsg, colli ei dafod, sgram, ar ei dalcen.

Os ydych chi am gysylltu dyma'r manylion. Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN 07443047642 **maryeds@hotmail.co.uk**

## Tybed ydach chi'n medru enwi rhai o'r plant sydd yn y llun?"

Diolch i Jean Thomas, Abercaseg, am anfon y llun hwn o Ysgol Penybryn yn 1962. Mae Jean ei hunan yn y llun, a hithau 'n 6 oed, Tybed ydach chi'n medru enwi rhai o'r plant sydd yn y llun?"



# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Mae'r mymryn Haf a gawsom eleni wedi'n gadael erbyn hyn , a phrysurdeb yr Hydref ar fin cychwyn. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â ffrindiau o'r pentrefi cyfagos yn y cymdeithasau a gweithgareddau sydd ar gael yn y Dyffryn. Byddai'n braf iawn croesawu aelodau newydd o'n pentref ni ym mhob un ohonynt.

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini
01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**Llwyddo'n lleol!**
Llongyfarchiadau cynhesaf i Seren Unsted, 3 Dolhelyg, sydd wedi ymgymhwyso fel glanweithydd ddeintyddol. Rwyt ti wedi gweithio'n galed iawn, Seren, ac wedi cyrraedd y nod yn anrhydeddus. Dymuniadau gorau iti yn dy swydd newydd.

Llongyfarchwn bobl ifainc Talybont un ac oll ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Haf. Dymunwn bob bendith a dedwyddwch iddynt i ba bynnag cyfeiriad bydd eu llwybrau yn arwain. A phob lwc i'r plant, o'r ieuengaf i'r hynaf, wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Rydym yn ffodus bod gennym bobl ifainc mor gyfeillgar a pharod eu cymwynas o'n cwmpas. Gwerthfawrogwn bob un ohonynt.

**Penblwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau i Gwion Pritchard, Glanmor Isaf, a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ym mis Gorffennaf. Mae Gwion yn amaethwr wrth reddf, ac yn weithgar iawn yng Nghlwb Ffermwyr Ifainc y Dyffryn. Pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol, Gwion.

Yr un yw'n dymuniad i Sophie Lloyd Williams, 12 Dolhelyg, a ddathlodd ei deunawfed penblwydd hithau ym mis Gorffennaf. Yn ôl Nain Lôn Ddŵr, mae misoedd yr Haf yn llawn penblwyddi i deulu Sophie a'i chefndryd yng Nghae Gwigin. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Dathlodd Laurie, 3 Talybont, ei phen-blwydd yn 70 ar ddiwedd mis Awst. Pob bendith iti, Laurie. Rydym i gyd yn falch o glywed dy fod wedi gwella ar ôl dioddef cyfnod hir o waeledd.

**Gyrrwr newydd**
Llongyfarchiadau i Brandon Alford, 32 Cae Gwigin, sydd newydd basio ei brawf gyrru, ac wedi cyfnewid ei feic modur am gar. Does dim angen rhybuddio Brandon i gymryd gofal ar y lôn. Mae o wedi bod yn hynod o gyfrifol ac aeddfed wrth reidio'i feic modur. Dymunwn flynyddoedd maith o yrru'n ddiogel iti, Brandon.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

| | |
|---|---|
| **Medi 22** | Mr. Richard Parry Jones. |
| **Medi 29** | Parchg. Rhodri Glyn. |
| **Hydref 6** | Parchg. Cledwyn Williams. |
| **Hydref 13** | Parchg. Dr. Elwyn Richards. |
| **Hydref 20** | Parchg. Gerallt Lloyd Evans. |

**Croeso cynnes i bawb.**

**Nofwyr o fri!**
Ar ddechrau gwyliau'r haf, cymerodd Poppy a Daisy Williams, yr Hen Ysgubor, Ffordd Aber, ran ym Mhencampwriaethau Nofio Cymru, a gynhaliwyd yn y Pwll Nofio Cenedlaethol yn Abertawe. Nofiodd y genethod yn ardderchog. Llwyddodd Poppy i wella ar ei hamser gorau mewn deuddeg o gystadlaethau, gan ddod yn bedwaredd ym mhob un ohonynt ac ennill Medal Arian.

**Brysiwch wella**
Bu nifer o drigolion Talybont o dan y don yn ystod cyfnod y gwyliau.
Mae'n dda clywed bod Eirlys, 70 Bro Emrys, yn gwella ar ôl derbyn triniaeth ar ei chalon yn Ysbyty Gwynedd

Mae Dot Pritchard, 15 Bro Emrys, wedi cael clun newydd ac yn gwneud yn wych.

Mae Keith Jones, 13 Dolhelyg, wedi cael triniaeth ar ei droed yn Ysbyty Glan Clwyd. Keith, mae dy ffrindiau a'th gymdogion i gyd yn anfon dymuniadau gorau atat, ac yn edrych ymlaen at dy weld yn dod adra'n fuan.

Mae Liz Humphries, 6 Lôn Ddŵr, yn disgwyl galwad i Ysbyty Gwynedd . Gobeithio medr y meddygon setlo'r broblem iddi'r tro hwn. Mae hi'n cael trafferth efo'i throed erstalwm iawn.

Mae chwaer Margaret Fernley, Helyg, Tyddyn Cottages, yn wael yn ei chartref ar gyrion Llundain. Un o 'genod Talybont' ydi Glen, wedi ei geni a'i magu yng Nghae Gwigin ac yn ffrind triw i'w chyfoedion. Anfonwn gofion cynhesaf ati.

**Gofalu am y Cae**
Ar y 5ed Awst, cafodd trigolion y pentref wahoddiad i ymuno â Chris a Barry, o Bartneriaeth Ogwen, i dacluso'r bocsys pren a brynwyd yn wreiddiol i dyfu blodau yn y Cae Swings. Erbyn inni orffen, roeddynt yn edrych ychydig yn daclusach, ac yn barod i dderbyn planhigion newydd. Diolch i Barry am ddod yn ôl gydag amrywiaeth o blanhigion, yn cynnwys pansis del iawn, a'u plannu'n ofalus yn y bocsys. Ein gwaith ni fydd cadw llygad arnynt, a gofalu amdanynt.



**Profedigaeth**

Estynnwn gydymdeimlad dwys at David Carr, 5 Cae Bach, a gollodd ei fab, Ronald, ar ddiwedd mis Gorffennaf. Bu farw Ronnie'n ddisymwth yn ei gartref yn Ffordd Seion, Bangor. Ef oedd mab ieuengaf David a'i ddiweddar wraig, Elfreda. Fe'i roddwyd i orffwys ym Mynwent Bangor ar bnawn dydd Mawrth, Awst 20ed.

**Diolchiadau**

Mae Sion a Natalie yn dymuno diolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau yn y Dyffryn, am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Theo. Maent yn gwerthfawrogi pob un. Deallwn fod Theo yn dod yn ei flaen yn ardderchog, ac edrychwn ymlaen at ei weld pan ddaw am dro i 4 Lôn Ddŵr, tŷ Nain a Taid Kendrick.

**Seiclo a Sgwtera**

Oherwydd y tywydd gwlyb, ni fu'n bosibl cynnal y sesiwn ddwy awr o 'Seiclo a Sgwtera' a drefnwyd gan 'Beics Ogwan' ar gyfer Awst 15ed yn y Cae Pêl-droed. Roedd y dydd Mercher a dydd Gwener yn gynnes a heulog, a dydd Iau yn gwbl anobeithiol. Biti garw; mi fyddai nifer dda o blant y pentref wedi elwa ar brofiad o'r fath. Gobeithio y bydd cyfle i'w chynnal yn y dyfodol.

**Gweithdy yn y Festri**

Yn ystod pnawn dydd Iau, Awst 15ed, cynhaliwyd Diwrnod Cofnodi Enwau yn Festri Capel Bethlehem, o dan nawdd Bartneriaeth y Carneddau. Yr oedd yr ymateb yn hynod o ffafriol, a chafodd y trefnwyr eu plesio'n arw. Oherwydd y tywydd gwlyb, daeth rhai o'r ffermwyr i helpu enwi pob ffridd a ffrwd ar eu tir a thu draw, a braf oedd gweld trigolion eraill a fagwyd yma'n cyfrannu'n helaeth at y drafodaeth.

Mae rhoi'r enwau gwreiddiol Cymraeg ar gof a chadw'n holl bwysig ond nid pawb aiff i chwilio amdanynt i'r Archifdy. Onid gwell, efallai, byddai eu harddangos ar fynegbyst lliwgar o gwmpas yr ardal, yn y gobaith y daw'r genhedlaeth iau, a phobl ddŵad, i'w defnyddio ar lafar? Gwelsom enghreifftiau lu o'r ymarfer da hwn y llynedd, wrth inni deithio hyd lonydd Llŷn ac Eifionydd i'r Eisteddfod Genedlaethol.

**Nodyn i'n cwsmeriaid ffyddlon**

Mae pris 'Llais Ogwan' yn £7.70 am y flwyddyn; bargen ar unrhyw gyfrif.

Oni bai i rhai o'm cwsmeriaid fod mor garedig â rhoi'r pres drwy'r drws, galwaf heibio, os byw ac iach, ym mis Hydref. Plîs ga'i apelio am arian parod, os yn bosibl?

Erbyn hynny, efallai bydd Calendrau 2025 ar gael.

Diolch o galon am eich cefnogaeth a'ch cymorth hyd y blynyddoedd, a daliwch i ddod â newyddion ataf i 1 Dolhelyg!

# YSGOL ABERCASEG



Cawsom dripiau i'w cofio cyn i'r ysgol gau am yr Haf er mwyn dathlu ymdrechion y plant a dathlu blwyddyn lwyddiannus arall.

Cafodd plant blwyddyn 1 a 2 fodd i fyw yng Ngelli Gyffwrdd, er gwaetha'r glaw yn mwynhau'r reidiau a'r sleidiau dŵr! Nid oedd rhaid gofyn os oeddent yn mwynhau gan fod eu wynebau yn dweud y cyfan!

Tra 'roedd Blwyddyn 1 a 2 yn anlwcus gyda'r tywydd, penderfynodd yr haul ddod allan yn ystod ymweliad Meithrin a'r Derbyn â 'Gypsy Wood' ym Montnewydd. Cawsom amser gwerth chweil a y trên a'r parciau chwarae a chael bwyta ein cinio yng ngwres yr haul!

Roedd yr haul yn garedig iawn unwaith eto pan adawodd i ni gynnal ein Mabolgampau ar ôl gorfod gohirio oherwydd y glaw. Llongyfarchiadau i'r plant am eu hymdrechion a'u dyfalbarhad yn ystod y rasys amrywiol. Roeddem yn falch iawn o bob un ohonoch.

Diwedd digon rhyfedd oedd hi i ni fel ysgol wrth i ni orfod ffarwelio gyda chymorthyddion arbennig. Diolch o galon i Sophie Pipe a Kate Hughes am eu hymroddiad a'u gwaith yn ystod eu cyfnod yma'n Abercaseg, rydym wedi mwynhau cael cydweithio â chi, pob dymuniadau da ar gyfer y dyfodol.

Cawsom newyddion bendigedig yn ystod y gwyliau fod Martha Gwenllian wedi cyrraedd y byd yn ddiogel. Llongyfarchiadau i Mrs Alys Taylor a'r teulu, mwynhewch y magu!

Nid yn aml yr ydym yn gallu dathlu fod aelod o staff wedi bod yn gweithio yn yr ysgol ers 40 o flynyddoedd, tipyn o gamp yn wir! Llongyfarchiadau i Mrs Karen Briggs a hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i chi am yr holl waith ar hyd y blynyddoedd.

Yn olaf, hoffem estyn croeso i blant a rhieni newydd i'n cymuned yma'n Ysgol Abercaseg. Edrychwn ymlaen i ddod i adnabod y plantos bach ar hyd y flwyddyn ac edrychwn ymlaen i gydweithio gyda chi fel rhieni. Edrychwn ymlaen am flwyddyn llawn dop eto eleni!





# Y Gerlan

Mae'r ddau fis diwethaf wedi hedfan heibio eto a nifer o bobl ifanc wedi cael haf i ymlacio. Llawer hefyd wedi eistedd arholiadau a derbyn canlyniadau gan wneud cynlluniau newydd ar gyfer y dyfodol. Beth bynnag da chi'n penderfynu ei wneud, dwi'n siŵr bod ni gyd yn dymuno'r gorau i chi.
Dwi wedi clywed am hanes sawl un sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar felly gyrrwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd wedi bod yn dioddef adref ac yn yr ysbyty

**Penblwydd hapus arbennig**
Penblwydd Hapus i Catrin Griffith-Jones, Hen Gapel, Gerlan a oedd yn 50 oed ar 27 o fis Awst gan y teulu i gyd. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Bu dathlu dwbl yn Stryd yr Allt wrth i Twm a Lleu Humphries-Jones ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed ym mis Gorffennaf. Penblwydd hapus iawn i chi hogia' a mwynhewch yr antur nesaf wrth i chi adael Ysgol Tryfan.

Diwedd mis Awst 'roedd 'na ddathlu pen-blwydd arbennig yng Nghiltwllan hefyd wrth i Gruff Hughes droi'n 18 oed. Mae Gruff hefyd newydd orffen yn y 6ed dosbarth felly pob lwc i ti yn beth bynnag y byddi'n dewis ei wneud nesaf.

'Roedd 'na ddathlu'n Stryd Goronwy wrth i Paul Williams droi'n 30. Gobeithio dy fod wedi cael amser da'n dathlu efo teulu a ffrindiau.

Penblwydd hapus iawn i Merfyn Williams Ciltwllan. 'Roedd Merfyn yn 80 ar y 29ain o Awst. Cofion gorau atat Merfyn gan Helen a'r teulu i gyd.

**Rhedwyr Gerlan**
Llongyfarchiadau mawr i bawb gwblhaodd Ras yr Wyddfa eleni. Yn eu plith 'roedd 'na ambell un o Gerlan felly Llongyfarchiadau mawr i Megan Hughes a Gwenllïan Dafydd Ciltwllan, Aled Jones Stryd Goronwy a Chris Hughes bryn Caseg - dipyn o gamp!
Penwythnos olaf Awst, bu Chris Williams yn rhedeg eto gan Gwblhau y "Ring of Fire" yn Ynys Môn, Mae hon yn ras 135 milltir dros 3 diwrnod o amgylch arfordir Môn a llwyddodd Chris i ddod yn 4ydd ymhlith y dynion ac yn 7fed yn gyffredinol yn y ras. Am gyflawniad anhygoel! Llongyfarchiadau mawr i ti Chris – da ni'n hynod falch ohona ti.







**Gwobr arbennig**
Daeth Richard ac Idris Temple Morris a gwobr arbennig yn ôl i Gerlan ym mis Gorffennaf. Daethant yn gyntaf gyda'u hoen maharen yn Sioe Frenhinol Cymru. Aethant ymlaen wedyn i gystadlu a chael cilwobr y prif bencampwr Teulu Lloyd. Da ni'n falch iawn o'ch llwyddiant.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Bedwyr Williams ag Emma Huskisson Ffordd Gerlan ar eu priodas diweddar. Cafwyd diwrnod da yn dathlu yn ôl Bedwyr. Pob dymuniad da i chi fel gŵr a gwraig

**Cymdogion Newydd yn Tŷ Dŵr**
Mae 'na newid cymdogion yn y Cwt Dŵr. Pob dymuniad da i Hannah a Jack sydd yn gadael i fynd i weithio yn Perth, Awstralia am flwyddyn. Ond cyn hynny am seiclo i briodas ffrindiau, yr holl ffordd i Majorca! Mae'r Cwt Dwr wedi profi i fod yn le rhamantus iawn gyda'r ddau wedi dyweddïo rhyw fis yn ôl yng Nghwm Pen Llafar. Llongyfarchiadau mawr iddynt!
Bydd dwy Dr iau arall sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd yn symud i mewn diwedd Awst. Felly croeso mawr i Elen a Clare. Mae'r ddwy'n awyddus i ddysgu Cymraeg felly cofiwch ddweud 'Sut mae?' os fyddwch chi'n eu gweld nhw o gwmpas Gerlan.

**Ymunwch â Brownies Gerlan**
Mae gynnon ni leoedd yn Brownies Nant Ffrancon! Rydym yn cyfarfod ar nos Iau yn Gerlan, a byddwn yn cychwyn ar y 12fed o Fedi. Dewch i ymuno yn yr hwyl! Rydyn ni'n cael llawer o anturiaethau, yn dysgu sgiliau newydd, yn greadigol gyda chrefftau, yn chwarae gemau ac yn gwneud ffrindiau newydd ar hyd y ffordd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi anfon neges at Rachel (nantffranconbrownies@yahoo.co.uk) neu
gallwch gofrestru ar-lein

**Caban Gerlan**
**Grant Cist Gwynedd**
Mae Pwyllgor Caban y Gerlan wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am Grant Cist Gwynedd. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu ychydig o fyrddau a chadeiriau newydd i'r neuadd er mwyn gallu cynnal mwy o weithgareddau yno ac adnewyddu ychydig o'r hen offer.

**Ymweliad Siân Gwenllian**
Da ni'n falch iawn o allu croesawu ein Haelod Cynulliad Lleol, Sian Gwenllian, atom i'r Gerlan dydd Gwener y 25ain o Hydref. Bydd Sian yn picio heibio'r Caban 4 o'r gloch er mwyn cael gweld y neuadd a gweld beth sy'n mynd ymlaen yno. Mae croeso i unrhyw un bicio draw am baned a sgwrs hefyd.

**Dewch i Rannu Straeon a Lluniau am Gerlan, Ysgol Gerlan a'r Caban**
Dewch draw i'r Caban i hel straeon am Gerlan, y Caban a'r hen ysgol 4-7yh pnawn dydd Gwener y 25ain o Hydref a bore dydd Sadwrn 10-12.30 ar y 26ain o Hydref. Gobeithio y bydd y digwyddiad yn gyfle i gael cofnodi hanesion a gwybodaeth ac i bawb ddod at ei gilydd am sgwrs ddifyr. Mae sawl un wedi rhannu ambell lun efo fi'n barod ac mae'n argoeli i fod yn ddigwyddiad diddorol a hwyliog iawn. Os ydych eisiau dod draw ond ddim yn gyrru, cofiwch adael i mi (Caren Brown) wybod a gallwn drefnu cludiant i chi.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000)

# Partneriaeth Ogwen

### Prynhawn Difyr yn Neuadd Ogwen

Prynhawn Difyr i henoed ardal Dyffryn Ogwen yng nghwmni Wil Tân Neuadd Ogwen Bethesda, Dydd Mawrth Hydref 15fed. Drysau yn agor am 1.30yp - Cyngerdd yn cychwyn am 2.00 ac wedyn bydd te bach prynhawn i ddiweddu.

Os byddwch angen trafnidiaeth Partneriaeth Ogwen i'r cyngerdd yn Neuadd Ogwen e-bostiwch: cludiant@ogwen.org neu ffoniwch: 07394906036

I sicrhau tocyn i'r achlysur dewch i roi eich enw i lawr yn yr Hwb Ogwen ar y Stryd Fawr, Bethesda neu cysylltwch a cyfaill@ogwen.org neu ffoniwch Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131.

### Gofod Gwneud – Gweithdy "Dy werth" gyda Rebecca F Hardy

Ydych chi'n artist neu'n berson creadigol sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y Gofod Gwneud a sut y gallech chi ei ddefnyddio yn eich gwaith? Bydd yr artist lleol Rebecca F Hardy yn cynnal sgwrs am ei phrofiadau yn defnyddio Gofodau Gwneud ar draws Gwynedd a'r dylanwadau ar ei chelf weledol a dylunio cynnyrch. Yna bydd yn arwain gweithdy gan ddefnyddio rhai o'r offer Maker Space i greu gemwaith wedi'i ailgylchu.
Am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle, cysylltwch â gofod@ogwen.org




### Gweithgareddau Haf

Diolch i bawb wnaeth ymuno gyda'r sesiynau gweithgareddau haf eleni. Rydym yn falch iawn o allu rhoi'r digwyddiadau yma ymlaen I'r gymuned. Ni fuasai hyn yn bosib heb gymorth gan Elusen Ogwen, GwyrddNi ac Adra.

Gyda ddiolch arbennig i Harri o Barc y Moch, Artistiaid lleol Lora Morgan a Hannah Coates am ein gynorthwyo i gynnal y gweithgareddau. I dderbyn diweddariadau am ein digwyddiadau a'n waith, e-bostiwch marchnata@ogwen.org i fod ar ein rhestr.









### Y Gofod Gwneud yng Nghefnfaes

Mae Partneriaeth Ogwen wedi ail-lansio'r Gofod Gwneud yng Nghanolfan Cefnfaes, gan gynnig ystod o weithdai a sesiynau chymorth technegol i unrhyw un sy'n awyddus dysgu i ddefnyddio'r offer yn y Gofod Gwneud. Rydym yn falch o allu cynnig y gweithdai cychwynnol hyn am ddim fel rhan o'r ail-lansio.

Mae'r Gofod Gwneud yn cynnwys nifer o beiriannau y mae modd i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio fel torrwr laser, argraffydd 3D, torrwr feinyl, peiriannau gwnïo a mwy.

Mae'r gweithdai cyntaf wedi eu cynnal yn gynharach yn y mis, a bydd mwy o sesiynau'n cael eu hychwanegu'n fisol, felly cadwch lygad ar dudalen Facebook Partneriaeth Ogwen neu cysylltwch efo gofod@ogwen.org i weld beth sydd ar y gweill.

Yn ogystal â gweithdai wedi'u trefnu, rydym bellach mewn sefyllfa i gynnig amser yn y Gofod Gwneud gyda thechnegydd i'ch cefnogi i ddefnyddio'r peiriannau, neu i roi cyflwyniad cyffredinol I chi i'r peiriannau. Mae'r sesiynau hyn hefyd ar gael yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd, ond codir tâl am unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir. Cysylltwch â gofod@ogwen.org i drafod eich anghenion a threfnu apwyntiad.


C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 20

**16 a 17 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

**Griffith Roberts**, a anwyd ym Meddgelert oedd yn byw yn rhif 16 Ogwen Terrace yn 1871. Teiliwr oedd Griffith, ac roedd wedi priodi gyda Jane yn enedigol o Landygái. Roedd ganddynt ddau o blant, sef Catherine a anwyd yn 1868 a Robert G. a anwyd yn 1871. Ganwyd plentyn arall i Griffith a Jane tua'r flwyddyn 1877, o'r enw Arthur Ellis, ond bu farw'r bachgen bach yn flwydd a mis oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Crist Glanogwen. Nid oes fawr o hanes Griffith Roberts i'w gael hyd at y flwyddyn 1887, pan mae adroddiad yn ymddangos yn y *North Wales Observer & Express*, dyddiedig Medi 9, 1887, o dan y pennawd *Theft of a Pair of Trousers at Bethesda"* 'Ym Mangor yn llys yr ynadon ddydd Mawrth, o flaen Dr H. R. Hughes, a Mr T. E. Harris, roedd William Williams, o Fynydd Llandegai, wedi ei gyhuddo o ddwyn pâr o drowsus gwerth 9s 6c o siop Griffith Roberts, Ogwen Terrace, Bethesda, y dydd Iau blaenorol. Roedd y cyhuddedig wedi gwerthu'r trowsus i berson arall am 4s ond fe ddalwyd gan Rhingyll Jones, Bethesda. Cafwyd ef yn euog a'i ddedfrydu i ddau fis o garchar gyda llafur caled.'

Yn ôl adroddiad yn y *NWC* Hydref 1, 1892 cawn y canlynol: 'ARDDANGOSFA AMAETHYDDOL BETHESDA. Ffurfiwyd cymdeithas amaethyddol yn ddiweddar i blwyfi Bangor, Aber, Llandegai, a Llanllechid, a chynhaliwyd yn arddangosfa gyntaf yn Methesda ddydd Sadwrn diweddaf. Y llywydd ydoedd y Milwriad yr Anrhydeddus W. E. Sackville West; is-gadeirydd, Mr E. A. Young; cadeirydd y pwyllgor gweithiol, Mr W. J. Parry, Y.H. (cadeirydd y Cyngor Sirol): ysgrifenydd, Mr Charles James, Bangor. Trodd yr arddangosfa allan yn bur lwyddiannus, ac yr oedd nifer yr entries yn agos i 500, a diamau y bydd i'r arddangosfa bellach gael ei chynnal bob blwyddyn.'

Mae enillwyr y gwahanol adrannau yn cael eu henwi, ac yn eu mysg mae Griffith Roberts, yn ennill y wobr gyntaf gyda garlleg ('*garlic*'). Mae'n ddiddorol gweld yn yr un adroddiad fod W. J. Parry wedi ennill y wobr gyntaf ac ail gyda grawnwin duon a gwyrdd.




Yn ystod y flwyddyn 1893/94 mae'r hysbysiad yma yn ymddangos yn y *North Wales Chronicle*, sydd yn dangos fod Griffith Roberts a Vallance Bros. Bangor, mewn rhyw fath o gytundeb i werthu dillad dynion a merched.

Erbyn y flwyddyn 1900, mae hysbyseb yn ymddangos yn *Y Genedl Gymreig* Gorffennaf 3, 1900. '*To BE LET, House and shop, No. 16, Ogwen Terrace, Bethesda.- For further information apply to G. Roberts, Alma Lodge, Rhosgoch, Anglesey*.'

Felly, mae tymor Griffith Roberts a'i deulu yn rhif 16 Ogwen Terrace wedi dod i ben yn ôl pob golwg. Roedd y teulu wedi bod yn byw yn rhif 16 am oddeutu 30 o flynyddoedd, cyn symud i Sir Fôn i fyw. Bu farw Griffith Roberts ar y 15$^{fed}$ o Ionawr 1905, yn 71 oed, yn ei gartref Alma Lodge, Rhosgoch, Sir Fôn, ac fe'i claddwyd ym mynwent Glanogwen ar yr 20$^{fed}$ o'r mis. Bu ei wraig fyw am bymtheng mlynedd ar ôl colli ei gŵr.

Roedd rhif 16 yn wag ar noson y cyfrifiad 1900, ond mae teulu **William Henry Edmunds,** yn byw yno yn 1911. Ganwyd William yn Llanllechid yn y flwyddyn 1865, ac roedd wedi priodi â Margaret Anne o Gaergybi. Ganwyd hi yn 1869. Roedd saith o blant ganddynt, sef Catherine Anne, wedi ei geni yn 1888 ym Mangor. Roedd hi yn athrawes elfennol yn y cyfrifiad. Grace Ellen wedi ei geni yn Bethesda yn 1889, yna Apollonia Mary (1892), Maggie Gwendoline (1895), Robert Henry (1897), Eva Winifred (1905) ac Iris Anita (1909). Ganwyd pob un o'r plant heblaw am Catherine Anne ym Methesda. Taniwr Nwy oedd bywoliaeth William Henry Edmunds,

Yn rhifyn Awst 1, 1906 o *Baner ac Amserau Cymru*, o dan y pennawd 'Nodion o Bethesda', cyfeirir at gyflwyno ysgoloriaethau i ddisgyblion yr Ysgol Sirol gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn eu plith enwir Appie Edmunds, 14 oed, a gafodd wobr £2.10s

**17 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

**Catherine Evans** a'i merch Catherine oedd yn byw yn rhif 17 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Roedd Catherine yn wraig weddw ac wedi ei geni yn Llandygái yn y flwyddyn 1802. Mae hi'n nodi ei bod yn cadw siop. Roedd ei merch Catherine yn 43 oed ac yn sengl, ond nid yw'n sôn beth oedd ei bywoliaeth. Mae lletywr yno hefyd o'r enw Daniel Davies, gweinidog yn ôl ei alwedigaeth, ac roedd o yn enedigol o Lanymddyfri.

Yn ôl cyfrifiad 1851, roedd y teulu yn byw yn rhif 52 Stryd Fawr, Bethesda. John Evans yn ben teulu ac yn gludwr nwyddau, Catherine ei wraig yn cadw siop, ac yna 6 o blant, Catherine (1828), Jane (1833), Evan (1838), Griffith J. (1840), Mary (1841), a William (1844).

Aeth William yn ei flaen i fod yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, a bu'n weinidog ar sawl eglwys yn ne Cymru cyn ymfudo i'r Unol Daleithiau yn y flwyddyn 1888, lle dechreuodd ofalu am eglwys y Bedyddwyr yn Freedom, Cattaraugus County, N. Y., cyn symud yn ei flaen i Wilkes-Barre yn 1891. Bu farw Rhagfyr 1902, ac fe'i claddwyd ym mynwent Oaklawn Wilkes-Barre.

Yng nghyfrifiad 1881 mae'r canlynol yn byw yn rhif 17: Catherine Evans, pen teulu, Jane Evans, merch, Evan Evans, mab. Roedd Evan yn nodi mai mwynwr/chwarelwr wedi yddeol ydoedd. Roedd hefyd letywr o'r enw Robert Owen Jones, meddyg 23 oed o Sarn.

Erbyn 1882 yng ngholofn marwolaethau *Y Drych* cawn gofnod o farwolaeth R. O. Jones, meddyg yn 26 oed, ac mae'r cyfeiriad yn cael ei roi fel 17 Ogwen Terrace, Bethesda. Roedd R. O. Jones wedi bod yn lletya gyda Catherine Evans am tua tair blynedd.

Yna yn 1888 mae'r canlynol yn ymddangos yn *Y Genedl Gymreig* ddydd Mercher Tachwedd 28: 'Evans – Tachwedd 17, yn 87 mlwydd oed, Mrs Catherine Evans, Ogwen Terrace, Bethesda. Claddwyd hi yn mynwent Llandegai, dydd Iau, Tachwedd 22ain. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i'r Parchedig W. Ogwenydd Evans, gynt o Bodedern, Môn, ond yn awr o'r America.'

Dim ond Evan Evans a'i chwaer Jane sydd yn byw yn rhif 17 Ogwen Terrace erbyn y flwyddyn 1891. Mae Evan yn nodi mae chwarelwr wedi ymddeol ydyw, ac mae Jane yn dweud mae cadw tŷ oedd ei swydd. Erbyn cyfrifiad 1901 mae'r ddau yn dal i fyw yn rhif 17, ond mae Jane yn nodi mai morwyn ydoedd.

Mae'n ymddangos fod Evan a Jane un ai wedi symud neu yn farw cyn y flwyddyn 1909. Oherwydd mae hysbysiad yn cael ei gyhoeddi yn y *North Wales Weekly News* dyddiedig Tachwedd 26, 1909, fod cwmni yn cael ei sefydlu i brynu cylchgrawn poblogaidd, *Y Cronicl*, ac yn cynnig cyfranddaliadau i bobl. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn cael eu henwi, ac yn eu mysg mae W. J. Parry, Coetmor Hall; a'r Parchedig Rhys J. Huws, 17 Ogwen Terrace, Bethesda.

**Y Parch. Rhys J. Huws** daeth i fyw i rhif 17 Ogwen Terrace yn 1905 wedi iddo ddod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng nghapel Bethesda, sefydlodd Eisteddfod y Plant a fun llwyddiant mawr yn yr ardal.

**Ann Hughes** a'i merch Agnes Marian oedd yn byw yn rhif 17 Ogwen Terrace yn 1911. Roedd Ann yn 55 mlwydd oed ac Agnes y ferch yn 25 oed. Mae Ann yn dweud ei bod wedi priodi er 27 mlynedd, ond nid oes sôn am ei gŵr yn y cyfrifiad. Roedd myfyriwr y weinidogaeth o'r enw Gareth Jones yn aros gyda hwy ar noson y cyfrifiad ac roedd o yn enedigol o'r Benllech, Sir Fôn.

(i'w barhau) tro nesaf rhif 18 Rhes Ogwen

# YSGOL BODFEURIG

Gyda blwyddyn ysgol arall wedi hedfan heibio a blwyddyn newydd yn dechrau mae'n braf edrych yn ôl ar ddiwedd tymor prysur gafwyd yn yr ysgol. Cawsom flwyddyn yn llawn o hwyl, profiadau ac atgofion gan orffen gyda picnic hyfryd. Pob lwc yn arbennig i dair arbennig sydd wedi symud ymlaen i'r ysgol uwchradd – pob lwc genod mi fyddwch chi'n wych! A croeso mawr i'r criw newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol – dwi'n siŵr y byddwch yn hapus iawn yn rhan o deulu Ysgol Bodfeurig!



**Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru**
Fel rhan o waith dosbarth Ogwen ar 'arfordir Cymru' daeth Poppy a Simone o Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru i gynnal gweithdy gyda ni. Cafodd pawb amser braf yn creu gwaith celf oedd yn adlewyrchu taith afon. Cafodd pawb ddefnyddio gwahanol dechnegau a chreu cywaith hyfryd a lliwgar. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos, ynghyd a gwaith ysgolion eraill, ger un o'n afonydd lleol.





**Criced**
Diolch i Criced Cymru am drefnu gwyl criced lleol ym Bethesda. Roedd yn brofiad gwerth chweil i tîm criced yr ysgol ac yn gyfle i gystadlu gyda plant eraill o'r ardal. Diolch yn fawr i bawb fu'n rhan o'r trefnu.

**Gerddi Treborth**
Nol ym mis Mai roedd pawb yn yr ysgol wedi ymfalchïo wrth i rieni plant yr ysgol ennill gwobr aur yn Sioe Flodau Chelsea. Braint felly oedd cael gwahoddiad i Erddi Treborth i agoriad swyddogol yr ardd sydd bellach wedi cael ei ail leoli yno. Canodd y plant yn wych cyn cael cyfle i grwydro'r gerddi a gweld yr ardd 'Size of Wales' buddugol. Diolch i Studio Bristow ac Size of Wales am y gwahoddiad – braint yn wir.



**Ymweliad Gelli Gyffwrdd**
Er gwaethaf llawer o law cafodd pawb ymweliad gwych gyda Gelli Gyffwrdd i ddathlu diwedd y flwyddyn. Daeth pawb o'r meithrin i flwyddyn 6 gan gael diwrnod gwych yn mynd o gwmpas yr atyniadau!

**CHRIS GRIFFITHS CYF**



Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

**DAFYDD CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# CHWILAIR

## ENWAU CYMRAEG I FERCHED



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | A | L | Y | S | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H |
| X | J | U | C | I | S | V | A | F | E | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D |
| W | H | U | Z | E | M | X | S | I | O | N | E | D | M | E | G | A | N | V | A |
| D | D | N | N | I | R | T | A | C | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | P |
| Y | Q | Z | G | R | H | I | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | A | S | Z | U |
| T | F | D | X | U | P | W | R | H | C | Q | H | W | E | H | O | Y | E | E | G |
| E | O | M | H | E | P | T | T | C | B | B | C | U | U | J | P | L | T | M | I |
| V | V | D | C | B | B | F | R | F | O | G | J | V | I | I | R | R | X | I | M |
| H | T | T | O | S | K | O | P | W | R | C | M | K | C | B | O | R | C | X | V |
| R | Y | H | S | T | M | R | E | F | Y | J | D | Z | H | B | C | W | O | X | V |
| R | A | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | X | M | D | X | K |
| F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | G |
| W | S | L | Z | N | A | E | B | E | A | J | K | J | N | C | L | N | L | R | V |
| O | G | J | A | C | P | W | P | G | S | O | W | O | J | J | Q | U | L | F | S |
| V | T | I | E | X | E | U | G | H | D | S | I | L | Z | E | A | F | X | I | W |
| T | H | B | Z | N | H | K | V | D | A | F | G | B | N | K | A | C | S | I | K |
| R | O | G | D | I | H | B | E | S | F | I | U | R | **N** | **A** | **H** | **T** | **E** | **B** | O |
| X | A | G | X | R | R | L | A | E | E | K | K | D | A | N | T | O | G | W | B |
| M | B | J | R | E | E | F | U | N | K | B | Z | E | B | B | C | U | Y | C | F |
| T | Z | M | A | H | P | U | X | N | R | Z | T | S | X | Z | T | U | A | J | I |

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg ENW CYMRAEG I FERCHED i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn __un__ llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Medi. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Gorffennaf:** Anafon; Celyn; Croesor; Dulyn; Dywarchen; Ffynnon y Gwas; Gwynant; Idwal; Marchlyn Mawr; Peris; Stwlan; Tegid.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Judith Hughes, Llangoed; Ogwena Jackson, Gerlan; Doris Shaw, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Huw Williams, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Davies, Tanysgrafell; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Alan Davies, Porthaethwy.

**Enillydd Gorffennaf oedd:** Alan Davies, 43 Penlon, Porthaethwy, Sir Fôn LL59 5NE.

# Natur o'n Cwmpas

# Y Gornchwiglen

Aderyn trawiadol ei olwg a'i hediad yw'r gornchwiglen (Vanellus vanellus; lapwing, peewit) sy'n perthyn i deulu'r rhydwyr, sef yr adar sy'n chwilota am fwyd mewn gwlyptiroedd ac ar y glannau. Bydd y gornchwiglen hefyd yn bwyta pryfed o bob math ar dir cnydau cynnar, tir pori ac mewn sofl.

Cafodd ei henw oherwydd y plu main sydd fel corn ar ei choryn, ac efallai mai cyfeiriad at siglad y plu hyn yw'r 'chwigl'. Mae gan yr aderyn sawl enw arall, yn eu plith – hen het, cornicyll, cornor y gweunydd, corn y wich, bronddu'r twynau, chwilgorn y gwynt. Mewn rhai ardaloedd ym Mhowys y gelwir yr aderyn yn gorn y wich, gyda'r 'wich' yn cyfeirio at ei alwadau main – 'cî-wî'; 'pî-wî'; 'pwâî-îts'; 'wâî-ats'.

Clywais mai o Sir Fôn y daeth yr enw hen het, a'i fod o bosib yn cyfeirio at yr het â phluen a wisgid slawer dydd. Cornicyll yw'r enw arni yn ardaloedd y de-orllewin a'r de. Mae'r bardd Waldo Williams, mewn llinell o gynghanedd yn ei gerdd 'Mewn Dau Cae', yn disgrifio hediad acrobatig haid ohonynt fel 'callwib y cornicyllod' – eu bod yn medru gwibio'n 'gall' – yn reddfol ddeheuig fel gwenoliaid ac ystlumod, heb daro'n erbyn ei gilydd.

Ar wahân i'w grib bluog, nodweddion eraill yr aderyn hwn yw ei adenydd llydain, lled-grwn eu blaenau, a'i droelli anwastad wrth hedfan sy'n amlygu du a gwyn ei blu. Er mai'r lliwiau hyn sydd amlycaf, mae gwyrdd symudliw a phorffor sgleiniog ar ei gefn.

Nythu ar y ddaear mae'r gornchwiglen, ac os bydd bygythiad i wyau neu gywion gan lwynog bydd yr iâr yn ceisio'i hudo oddi



wrth y nyth drwy ddal un aden yn gam neu'n is, gan smalio ei bod wedi ei hanafu. Os bydd brân dyddyn yn bygwth nyth, daw nifer o'r haid ynghyd i'w gwarchod.

Roedd nifer fawr yn arfer nythu yng Nghymru – ac yn ein hardal ni – ond maent wedi prinhau'n arw. Hyd at yr 1960au, byddai haid o faint bur sylweddol i'w gweld yn troelli uwch y tir garw rhwng Parc y Marian a Phen Pileri ar Lôn Bronnydd, gyferbyn â cheg lôn Bronnydd Uchaf.

Ganrif yn ôl, byddai niferoedd helaeth i'w gweld yn y gwanwyn ar weundiroedd hyd at 488m (1,600tr) uwchlaw lefel y môr, a rhyw ychydig ohonynt hyd at 610m (2,000tr).

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd maent wedi symud yn raddol i wlypdiroedd llawr gwlad. Yn gyffredinol, newidiadau mewn arferion amaethyddol er yr 1940au sydd wedi bod yn gyfrifol am y gostyngiad graddol yn eu niferoedd. Bellach, mae'r gornchwiglen ar Restr Goch y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar, yn un o'r rhywogaethau y mae perygl mawr iddynt fethu â goroesi yng ngwledydd Prydain.



*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

## Cian Iolen Rhys, Academi Amaeth yr Ifanc 2024



Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, Garneddwen, sydd wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o Academi Amaeth yr Ifanc 2024.

Mae'n un o 12 ymgeisydd llwyddiannus o bob cwr o Gymru a ddewiswyd ar gyfer yr Academi sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n gweithio tuag at yrfa mewn amaethyddiaeth.

Mae Academi yr Ifanc gan Cyswllt Ffermio yn darparu profiad gwaith, hyfforddiant, mentora a chyfleoedd rhwydweithio i bobl ifanc 16-21 oed yng Nghymru sydd eisiau creu gyrfa neu sefydlu busnes yn y diwydiannau bwyd neu ffermio. Mae'r rhaglen yn darparu amrediad o weithgareddau I ysbrydoli'r ifanc i ddarganfod llwybr gyrfa.

Bydd y rhaglen yn cynnig rhwydwaith cymorth a fydd yn agor drysau ac yn creu cyfleoedd amrywiol.

Cyfarfu'r 12 ymgeisydd llwyddiannus eleni yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, a byddant yn mynd ar amrywiol deithiau dros y misoedd nesaf, gan gynnwys ymweliad â Norwy i weld sut mae sector amaethyddiaeth y wlad yn defnyddio ynni gwyrdd.

Llongyfarchiadau mawr iti Cian.

### Ysbyty

Dros yr haf bu sawl un yn yr ysbyty, a da deall fod rhai ohonynt gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Cofion atoch i gyd ac at bawb sy'n sâl gartref. Dyma enwau'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Eirwen Owen, Erw Las; Daniel Ogwen, Glanogwen; Linda Hughes, Garneddwen; Elwyn Roberts, Rhes Ogwen; Susan Roberts, Llawr y Nant; Gwyn Williams, Carneddi.

### Cartref Newydd

Croeso cynnes iawn i Osian a Daisy i'w cartref newydd yn Pant Glas.

### Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Manon a Geraint, Tanysgrafell, a chroeso mawr i Mali Haf ar ei genedigaeth ar 15 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Erw Las, sef Paul a Sioned Davies, a hen nain a thaid, sef John a Gwen Davies, Tanysgrafell, a Jessie Jones, Glanrafon, Bethesda.

### Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Cledwyn Thomas, 39 Abercaseg, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 31 Awst. Mae'n dymuno diolch yn fawr i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar gyrraedd y garreg filltir bwysig hon.

### Ymddeoliad

Mae Ann Jeanette wedi gadael ei siop ddillad ar y Stryd Fawr yn ddiweddar. Hyn ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth gwnïo ardderchog i drigolion yr ardal a thu hwnt. Diolchwn iddi, gan ddymuno ymddeoliad hapus a hir oes , gyda iechyd i'w fwynhau.

### Damwain

Wedi damwain yn ei chartref cafodd Eirwen Owen, Erw Las driniaeth yn yr ysbyty gan gael clun  newydd. Mae hi wedi dod adref bellach a dymunwn adferiad buan iddi.

Dymuna Eirwen ddiolch o galon am yr holl negeseuon a chardiau a dderbyniodd yn ystod ei hamser yn Ysbyty Gwynedd

Bu yno am fis cyfan ac un diwrnod wrth ddychwelyd adra o'r ysbyty gwelodd Dilwyn griw o bobl yng ngardd ffrynt rhif 39.

Roedd o wedi cynhyrfu ac yn methu deall beth oedd yn mynd ymlaen. Roedd criw Carol, tua saith ohonynt, wedi bod yn torri'r gwair, chwynnu a thacluso'r gwrychoedd. Ni allem ddiolch digon iddynt am eu holl waith. Dyna i chi gymdogion yntê!

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Sioned a'r teulu, Glanffrydlas, wedi iddi golli nain a hen nain annwyl yn Rachub, sef Mrs. Betty Jones a fu farw ar 31 Gorffennaf.

Blodwen Cavanagh a'r teulu, Maes y Garnedd, wedi colli ei nai , Elwyn Williams, Braichmelyn.

Linda a'r teulu, Abercaseg a Carys a'r teulu, Maes y Garnedd, wedi colli brawd yn Braichmelyn, sef Elwyn Williams.

Teulu y diweddar Mair Owen, Bryngwran, gynt o Faes Coetmor.

### Marion Roberts

Ar 31 Gorffennaf bu farw Marion Roberts, Plas Ogwen, gynt o'r Carneddi a Rhes Gordon, yn 97 mlwydd oed. Priod y diweddar Cledwyn Roberts (Cledwyn, Tan y Foel, Pentir). Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Llun, 12 Awst yn Amlosgfa Bangor gyda'r Parchedig Nerys Griffith yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

### Linda Smith

Yn ei chartref yn Ffordd Bangor, ar 1 Awst bu farw Linda Smith yn 61 oed. Priod annwyl Andrew, mam garedig i Amy a Paul, a chwaer i Martin a Nigel. Roedd Linda yn ferch i'r diweddar Thomas a Gwenda, Rhes Penybryn. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 13 Awst.

Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

### Howard Kevin Morgan

Yn Ysbyty Gwynedd ar 22 Awst, bu farw Howard Kevin Morgan, Maes y Garnedd, yn 64 mlwydd oed. Priod annwyl Rachel a thad i Gethin, Stacey, Melanie, Manon a'r ddiweddar Kelly.

Roedd yn daid hoffus ac yn frawd i Leonard a Neville, Glanffrydlas a'r diweddar Royston. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Gwener, 6 Medi gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys Coetmor.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

**Clwb Gorffwysfan**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, 8 Gorffennaf am 11.00yb gydag Edric Jones yn y gadair.

Aelodau yn bresennol: Helen Williams, Gaynor Davies, Dennis Dart, O.J. Evans, Dilwyn Owen, Edric Jones a Joe Hughes. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Rhiannon Efans (Cadeirydd) ac Ann Fôn Williams.

Cafwyd gair o groeso gan y Cadeirydd, ac fe ddymunodd wellhad buan gyda chofion at yr aelodau sy'n sâl, sef: Joseph Dignam, Brenda Williams, Christine Jones, Val Amos, Mair Griffith, Linda Hughes, Ann Fôn Williams a Sarah Roberts.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor 26 Mehefin 2023, ac fe'i cafwyd yn gywir.


Adroddiad y Trysorydd: Cafwyd adroddiad boddhaol o sefyllfa ariannol y Clwb gan y Trysorydd, Helen Williams a diolchwyd iddi am ei gwaith gan y Cadeirydd.

Nodwyd fod Bore Coffi i'w gynnal fore Sadwrn, 28 Medi yn Festri Capel Jerusalem o 10.00 tan 12.00.

Ethol Swyddogion 2024-2025: Cadeirydd – Rhiannon Efans; Is-Gadeirydd – Edric Jones; Trysorydd – Helen Williams; Ysgrifennydd – Joe Hughes. Aelodaeth: Roedd tri rhif aelodaeth ar gael, ac allan o'r rhestr penderfynwyd cynnig y rhifau I Sheila (31), Rita (44) ac Ann (1), sef tair sydd yn selog ymhob gwibdaith. Nodwyd fod yr enwau canlynol ar y rhestr aros: Dora, Eleri, Brenda, Alwena, Joan, Keith G., Tudor a Keith W.

**Cinio Nadolig 2024**: Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd fod yr Ysgrifennydd i gysylltu â Chlwb Rygbi Bethesda, gyda'r dyddiad, dydd Mercher, 11 Rhagfyr mewn golwg. Diolchodd Dilwyn Owen i Swyddogion y Clwb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb gan y Cadeirydd.
**Gwibdaith nesaf y Clwb i Gaer ar ddydd Mercher, 25 Medi. Cychwyn am 8.30yb**

# J.R. Jones a Brwydr yr Iaith – Ieuan Wyn




**(GWASG UTGORN CYMRU)**

Mae'r llyfryn hwn yn ffrwyth Darlith Flynyddol Utgorn Cymru 2021, a draddodwyd gan Ieuan Wyn i gynulleidfa Canolfan Hanes Uwchgwyrfai.

Yn briodol iawn, fe'i traddodwyd drachefn y llynedd yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan, gan mai un o wlad Llŷn oedd ei gwrthrych, yr Athro John Robert (J.R.) Jones, a aned ym Mhwllheli ym Medi 1911.

Yn y ddarlith gyfoethog a threiddgar hon mae Ieuan Wyn yn ymdrin â chyfraniad J.R. Jones i frwydr yr iaith – cyfraniad nodedig nid yn unig ei arweiniad o ran syniadaeth fel athronydd ond hefyd ei gefnogaeth gyhoeddus ddiwyro i'r gweithredwyr mewn cyfnod allweddol yn hanes y frwydr.

Mae'r ddarlith ar werth yn y siopau llyfrau Cymraeg (pris: £4.00) ac o Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, Caernarfon LL54 5BT; e-bost: hanes.uwchgwyrfai@gmail.com (£5.00 drwy'r post).
**Dawi Griffiths**

## Eglwys Glanogwen

Mae'r flwyddyn newydd Clwb Cant Eglwys Glanogwen yn ail gychwyn diwedd mis Medi. Os hoffwch ymuno trwy dalu £12 am y flwyddyn gallwch gysylltu trwy e-bost clwbcantglanogwen@gmail.com neu drwy dudalen facebook 'Glanogwen Clwb-Cant' am fwy o wybodaeth.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**
Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com




Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



**Menna Leyshon - Colli cyfeilydd nodedig**

Pan fu farw Menna Leyshon ar 20 Gorffennaf eleni yn 88 mlwydd oed, collodd ardal Bangor ac Ogwen, a Chymru gyfan, un o'r cyfeilyddion mwyaf amryddawn a thalentog a fu'n eistedd wrth y piano erioed. Wrth gyfeilio roedd ei gallu i ganu'r piano wrth wrando ar leisiau unawdydd neu gôr yn rhoi iddi'r ddawn i addasu uchder y sain a'r amseriad i gyd-fynd â'r lleisiau. Pa mor aml y clywyd aelodau o gôr yn dweud, "sylwaist ti fel ddaru Menna ddod â ni'n ôl pan ddechreuon ni fflatio neu gyflymu ynghanol y gân ddwytha 'na?"

**Person hoffus**

Ar ben ei thalentau amlwg wrth y piano roedd gan Menna bersonoliaeth gynnes a hwyliog a byddai chwerthin a thynnu coes yn rhan annatod o brofiad pob un ohonom cyn dechrau ymarfer neu berfformio mewn cyngerdd neu gystadleuaeth. Roedd hi wrth ei bodd yng nghwmni aelodau Côr y Penrhyn ac meddai Robbie, ei mab, "Roedd Mam yn dweud yn aml mai ei blynyddoedd yn cyfeilio i Gôr y Penrhyn oedd un o gyfnodau hapusaf ei bywyd."

Mae'r uchod yn gryn glod i'r



côr gan fod Menna wedi cyfeilio i rai o artistiaid mwyaf Cymru. Bu'n enw cyfarwydd ar y BBC cyn belled yn ôl â'r pumdegau neu'r chwedegau cynnar pan fu'n cyfeilio'n wythnosol i gorau fel Côr Merched Bethesda, Côr y Penrhyn, Cantorion Sant Deiniol ac eraill ar y rhaglen 'With Heart and Voice' a fu'n cael ei darlledu o Fangor bob bore Sul am flynyddoedd.

**Magwraeth ac Addysg**

Ar ben y galwadau oedd arni i gyfeilio profodd Menna dristwch mawr hefyd pan gollodd ei gŵr, y diweddar feddyg teulu, Dr John Leyshon, pan oedd hi'n fam ifanc i dri o blant, Robert, Simon a Jane. Mae ein cydymdeimlad gyda hwy a'r teulu oll yn ddwys a diffuant. Gorfu i Menna fynd i geisio am swydd i gynnal ei theulu ac fe aeth i Ysgol Friars ym Mangor i ddysgu cerdd, lle bu'n athrawes boblogaidd am flynyddoedd.

Ganed hi yn ardal Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin a symudodd y teulu ychydig yn ddiweddarach i bentref bach Rhosmaen tua milltir o Landeilo. Mynychodd Ysgol Ramadeg Castell Nedd yn ei harddegau cyn mynd i astudio cerdd yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain yn 1954. Graddiodd yn 1958 gan ennill graddau GRAM, LRAM ac ARCM o'r Academi Frenhinol.

Priododd â John Leyshon, yn 1961 a symudasant i Fangor pan gafodd ei gŵr swydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, fel y'i hadnabyddid ar y pryd. Er tristwch i lu o deulu a chyfeillion bu John Leyshon farw yn 1970 a chafodd Menna ei gadael yn weddw ifanc i fagu ei phlant, Robbie, Simon a Jane. Ymhen amser tyfodd y teulu ac roedd Menna wrth ei bodd yn cael wyrion a wyresau a gorwyrion i fynd â'i bryd.

**Cyfnod hapus**

Bu Côr y Penrhyn yn rhan bwysig o'i bywyd a dywedodd yn aml fod ei blynyddoedd efo'r côr yn rhai o gyfnodau hapusaf ei bywyd. "Roeddwn i bob amser yn teimlo'n ddiogel efo'r hogia," meddai'n aml. Yn ei hamser bu'n cyfeilio i nifer o enwau cyfarwydd fel Ryan a Ronnie, Bryn Terfel, Katherine Jenkins, Dennis O'Neil, Aled Jones, a Kenneth Bowen i enwi dim ond rhai.

Ar un adeg bu'n gweithio gyda'r Fonesig Judi Dench mewn noson o Farddoniaeth a cherdd ym Mhlas Newydd yn ogystal a chyfeilio i raglenni radio fel 'With Heart and Voice' ar y BBC fel y cyfeiriwyd ati uchod. Dywedodd Robbie, ei mab hynaf, ei fod yn cofio pan oedd o'n hogyn bach cael pwyso'r botwm mawr coch yn y bwth i recordio'r rhaglen. Yn fwy diweddar bu Menna'n cyfeilio i Gantorion Monteverdi hefyd.

**Athrawes**

Bu'n athrawes gerdd yn Ysgol Friars ym Mangor ac roedd hi'n mwynhau pob math o fiwsig. Oherwydd hynny roedd hi'n gallu cynhyrchu a chyflwyno gweithiau cerddorol a sioeau cerdd llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd.

Yn y 90au cychwynnodd fand jas yr ysgol ac mae hwnnw'n dal i fynd o hyd o dan arweiniad Chris Williams yr athro cerdd presennol. Roedd Chris yn chwarae ym mand gwreiddiol Menna oddeutu 30 mlynedd yn ôl bellach,

Cydymdeimlwn â'r teulu oll ac â'i ffrindiau niferus yn eu hiraeth am un mor ddawnus ac annwyl.



# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Wyn Williams sy'n canu gyda'r ail fas.**

**Be' ydy dy enw llawn?** Elwyn Jones
**Oed?** 76 ydw i mis yma.
**Gwaith** Wedi ymddeol fel gweithiwr Ieuenctid ers sawl blwyddyn ond bellach yn Gynghorydd Sir Ward Penisarwaun a Chlerc Cyngor Cymuned Pentir
**Lle wyt ti'n byw?** Yn Rhiwlas
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Hogyn o Rhiwlas erioed.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Cyfeillgar, Gweithgar a chymwynasgar gobeithio.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** Dim ond ers blwyddyn.
**Pa lais wyt ti?** Tenor 1.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Cyfaill mynwesol o'r enw John Baston yn troi fy mraich ar ôl misoedd o drio dwyn perswâd ond bellach dwi'n mwynhau.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'O Gymru'
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Elin Fflur yn enwedig yn canu dwy o'i chaneuon. Mae Rhys Meirion reit agos iddi; ac mi fuodd o yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Rhiwlas wnes i drefnu i godi arian at Steddfod Boduan.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Roedd o'n well ers talwm wrth edrych yn ôl hefo sbectol binc ond bosib iawn bod mwy o amrywiaeth dyddia' yma, ac yn sicr mae mwy o ganu pop Cymraeg.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Mae gen i frith atgof am Aberteifi a Carlow yn Iwerddon yn yr Ŵyl Ban Geltaidd lle roedd na awyrgylch dda ymhlith pawb oedd yn cystadlu.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Pêl-droed a ffermio os mai ffarmio mae rhywun yn galw stamp o dir. Ond yr un o bosib ydi'r mwynhad o fagu dy anifeiliaid dy hun waeth be' ydi maint y fferm.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Da ni'n cynnal llawer o gyngherddau, yn weddol leol, a dros clawdd Offa, a hanes gan y Côr o rannu llwyfannau hefo Cantorion proffesiynol – mi fydd un yng Nghaerdydd Mis Hydref yma.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Mae'r cyfeillgarwch o fewn y côr yn arbennig. Edrych 'mlaen i ymweld â Canada yn Awst 2025.




SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Contractwyr Trydanol
J&W
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Difyrion Digidol

Deian ap Rhisiart

Dwi'n siŵr eich bod wedi clywed sôn yn y cyfryngau yn ddiweddar am AI neu roi ei deitl yn llawn - deallusrwydd artiffisial. Beth yw deallusrwydd artiffisial?

Mae hyn yn cyfeirio at y gallu sydd gan gyfrifiaduron i berfformio tasgau sy'n gofyn am ddeallusrwydd dynol, megis dysgu, rhesymu, datrys problemau, canfod, a deall iaith.

Yn syml, mae AI yn fersiwn llawer mwy soffistigedig o search engine neu chwiliwr, bron fel robot!

Mae'r datblygiadau yn y maes wedi bod yn anhygoel yn ystod y dair blynedd diwethaf wrth i gyfrifiaduron fynd yn fwy fwy clyfar.

Er hynny, mae Deallusrwydd Artiffisial wedi bod efo ni ers sawl degawd er nad ydym wedi bod yn ymwybodol o'r dechnoleg tan yn ddiweddar.

Erbyn hyn, mae'r cyfrifiadur yn gallu i raddau feddwl dros ei hun gan ddefnyddio algorithm neu fformiwla i adnabod geiriau a brawddegau a dysgu ei hun. Mae'n rhyfeddol ein bod wedi cyrraedd y pwynt yma bellach ble mae'n bosib hyd yn oed wneud hyn oll yn Gymraeg hefyd!!

Elfen newydd iawn sydd wedi'i ymgorffori o fewn adnoddau porwr



fel Google Chrome ydi'r ffaith ei fod yn bosib cyfieithu cynnwys gwefannau i'r Gymraeg - dyma enghraifft o ddeallusrwydd artiffisial ar waith sydd ddim mor amlwg efallai a hynny wrth gyfieithu ieithoedd.

Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth newydd gyda chwmni OpenAI yn gynharach eleni, sef y cwmni y tu ôl i ChatGPT. Y bwriad ydy gwella sut mae technoleg AI yn gweithio yn y Gymraeg trwy greu archif data agored. Mae Canolfan Bedwyr hefyd yn arloesi yn y maes technoleg iaith sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial. https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/technolegau_iaith.php.cy

Nid yw deallusrwydd artiffisial yn rhywbeth i'w ofni gan ei fod wedi bod yn y cefndir fel a soniais ers degawdau ond gan fod y dechnoleg bellach yn mynd yn fwy clyfar, mae yma gyfleoedd newydd yma i'ch helpu i gyflawni tasgau.

Mae yna amryw o wasanaethau artiffisial deallusol ar gael fel Google Gemini https://gemini.google.com/?hl=en_GB; a Microsoft Copilot https://copilot.microsoft.com/ ac y mae cwmni Apple yn symud camau breision trwy ei gwasanaeth Siri wrth iddynt lansio Apple Intelligence yn hwyrach eleni.

Chatgpt (https://chatgpt.com/) yw'r mwyaf adnabyddus ohonynt a'r mwyaf cynhwysfawr ar hyn o bryd yn fy marn i.

Os ydych awydd chwarae efo Chatgpt, mae'r posibiliadau yn ddibendraw. Gallwch hyd yn oed ofyn iddo greu cerdd 'gynganeddol'!

Rhaid dweud, mae gwallau sylfaenol yn y gynghanedd ond dim ond gwella fydd y dechnoleg, serch hynny, mae'n dangos pa mor bwerus yw'r dechnoleg newydd hon i allu gwneud hynny yn Gymraeg a Saesneg!

Mi ofynnais iddo greu llun sy'n crisialu 'Cymru chwedlonol'- ac fe gafwyd llun digon diddorol ond ystrydebol! Gallwch ofyn iddo beth y mae AI yn ei wybod am eich ardal leol? Boed Ynys Môn neu Gwm Rhondda, Wrecsam, Dyffryn Clwyd, Bala, Dolgellau, Sir Benfro neu Gaerfyrddin! Triwch o!

Ond fe ellir ei ddefnyddio i'ch helpu wrth ddatrys problem, crynhoi syniad neu greu strwythur bras i gynllun busnes neu ofyn am gyfarwyddiadau i drwsio rhywbeth - mae'r potensial yn anferth.

Gyda chyfleoedd fel hyn, mae yna wrth gwrs beryglon ac mae'n bwysig i fod yn ofalus ac yn amlwg dydi'r dechnoleg ddim yn berffaith – peidiwch a'i or-ddefnyddio a gor-ddibynnu arno er mwyn cwblhau tasgau ond mae'n ffordd dda i roi'r 'sgrebwd i ddarn o waith.

Yn y tymor hir, fe fydd AI yn newid ein bywydau yn llwyr, ac mae'n holl bwysig fod y Gymraeg yn rhan o'r chwyldro hwn.

Gyda gwaith diflino caredigion yr iaith dros y canrifoedd, fe ymatebodd y Gymraeg i'r chwyldro print dros y pedwar can mlynedd diwethaf, wrth ddysgu llythrennedd i'r boblogaeth yn y ddeunawfed ganrif; wrth greu ei Sîn gerddoriaeth boblogaidd ei hun yn y 1960au, ac fe esgorwyd ar blatfformau darlledu trwy ewyllys gwleidyddol yn y 1970au a'r 1980au.

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf rydym yn byw yn y chwyldro digidol ac heddiw, welwn ni'r her newydd gyffrous – deallusrwydd artiffisial. Rhowch dro arni!


## GWERSI PIANO

- Tiwtor Piano arbenigol, cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chanddo dros 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol a thalu ar gychwyn bob gwers nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board. Arholiadau ddim yn orfodol i oedolion.
- Gwersi trwy gydol y flwyddyn yn ddewisol (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar unrhyw bryd arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Ni dderbynir plant sy'n iau na 6 mlwydd oed.

Cysylltwch â: **Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,**
ar Bethesda **01248 602901**



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

**YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE**
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# Eurgain Haf yn ennill Medal Ryddiaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf




Eurgain Haf sydd a'i gwreiddiau yn Rhiwlas a ennillodd y Fedal Ryddiaith eleni mewn cystadleuaeth a ddenodd 14 o ymgeiswyr. Testun y gystadleuaeth eleni oedd cyfrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau ar y testun '*Newid*'. Y beirniaid oedd Annes Glynn, John Roberts ac Elen Ifan.

Cyflwynwyd y Fedal gan *Clochdar*, papur bro Cwm Cynon, er cof am Idwal Rees, pennaeth cyntaf Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, a'r wobr ariannol o £750, gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Meddai Annes Glynn yn ei beirniadaeth, "Nid nofel drom, lafurus mo hon. Mae dawn yr awdur i newid cywair yn effeithiol, y cyfuniad o dosturi a hwyl, a'r fflachiadau cynnil o hiwmor - rhywbeth digon prin yn y gystadleuaeth - yn ei chadw rhag disgyn i'r pydew hwnnw. Mae'n llenor sy'n gwybod pryd i roi'r brêcs ymlaen ac yn ddigon hyderus yn ei allu ei hun ac yng nghrebwyll y darllenydd.

"Gall *Manaia* ysgrifennu'n fywiog; at ei gilydd creodd gymeriadau crwn, byw hefyd a gallwn ddyfynnu enghreifftiau lu o 'ddweud da' drwyddi draw.

"Yn sicr, gŵyr *Manaia* werth a grym geiriau. Am greu cyfuniad ohonynt yn gelfydd â chynildeb, sensitifrwydd a hiwmor ac am greu prif gymeriad a fydd yn aros yn y cof, *Manaia* sy'n derbyn y Fedal eleni."

Dywed Elen Ifan, "Mae'r ysgrifennu yn gadarn: ceir disgrifiadau cywrain a barddonol ar adegau, cymeriadu cryf, plotio da, a deialog gredadwy drwyddi draw. Mae'r stori'n adeiladu i *grescendo* sy'n ymylu ar fod yn eithafol, ond i mi roedd y digwyddiad sy'n arwain at yr uchafbwynt hwnnw – un ymddangosiadol ddigon di-nod – yn llwyddiannus iawn. Roedd y darllenydd, o'i brofi drwy lygaid Heli, yn deall yr arwyddocâd, ac fe deimlwn ei cholled i'r byw.

"Mae'r nofel hon yn ei chyfanrwydd, a'i chymeriadau yn arbennig, yn cyfareddu, ac yn aros gyda'r darllenydd am gyfnod hir wedi'i darllen. Mae *Manaia* yn llawn haeddu'r wobr eleni."

Nododd John Roberts yn ei feirniadaeth yntau, "Mae gan *Manaia* allu i ysgrifennu yn gynnil ond lliwgar a bywiog, ac mae'r cymeriadau yn grwn ac yn gyfan. Cynnil iawn yw'r darlun o rwystredigaeth y tad ac ansicrwydd y fam ond y mae'n ddigon i'r darllenydd eu hadnabod a chydgerdded gyda hwy... Dyma gymeriadau sydd yn aros gyda'r darllenydd a dyma ysgrifennu synhwyrus, dychmygus sydd yn defnyddio hiwmor, cynhesrwydd a thensiwn. *Manaia* sy'n dod i'r brig a'r ddwy nofel arall yn dynn ar ei sodlau."

Mae gwreiddiau Eurgain Haf yn Rhiwlas a Penisarwaun ond erbyn hyn mae hi wedi ymgartrefu ym Mhontypridd efo'i gŵr Ioan a'u dau o blant, Cian Harri a Lois Rhodd a chi bach annwyl o'r enw Cai Clustia'.

Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gynradd Tan-y-Coed, Penisarwaun ac yna Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug ble y daeth dan ddylanwad ei hathrawon Cymraeg, Esyllt Maelor a'r diweddar Alwyn Pleming a'i hanogodd i ysgrifennu.

Aeth ymlaen i Brifysgol Aberystwyth ble y graddiodd yn y Gymraeg a'r Ddrama ac yna mynd ati i gwblhau gradd MPhil yn y ddrama ac mae'n ddiolchgar i'r Athro Elan Closs Stephens a'r diweddar Athro John Rowlands am eu holl anogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'n ddyledus i drefnwyr Eisteddfod Bentref Penisarwaun am roi'r hwb a'r hyder iddi pan oedd yn blentyn i barhau i ysgrifennu a byddai'n annog unrhyw gyw awdur i gystadlu a chefnogi eu heisteddfodau bychain lleol. Dyma feithrinfa eu dawn.

Aeth ymlaen wedyn i ennill sawl gwobr lenyddol gan gynnwys Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, coron Eisteddfod Môn a'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Hyd yma mae wedi cyhoeddi deuddeg o lyfrau ar gyfer plant yn cynnwys Y *Boced Wag* a *Cyfrinach Noswyl Nadolig* ac wedi cyfrannu straeon byrion ar gyfer cyfrolau i oedolion fel *O, Mam Bach! Cariad Pur* a *Nerth Bôn Braich*.

Mae hefyd yn gyn-enillydd y Fedal Ddrama yn yr Eisteddfod Ryng-golegol ac fe berfformiwyd drama fer o'i heiddo, *Cadw Oed*, fel rhan o gynhyrchiad teithiol Sgript Cymru, 'Drws Arall i'r Coed' yn 2005. Hoffai ddiolch i'r holl olygyddion clên y cafodd y pleser o gydweithio gyda nhw hyd yma ac yn arbennig i Catrin Hughes, cyn-olygydd gyda Gwasg y Dref Wen, am roi'r cyfle a'r wefr iddi o weld ei gwaith mewn print am y tro cyntaf un gyda'i nofel i blant, *Fferm Ffion*.

Mae ei gyrfa ym maes cyfathrebu a PR a threuliodd ddeng mlynedd hapus iawn yn gweithio yn Adran y Wasg S4C cyn cael ei phenodi yn Uwch Reolwr y Wasg a'r Cyfryngau i elusen Achub y Plant Cymru.

Ymysg ei diddordebau eraill mae cerdded gyda ffrindiau, mynd am wyliau i lecynnau godidocaf Cymru efo'r teulu a chanu gyda Chôr Godre'r Garth.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## FESTRI JERUSALEM

**Bore Coffi Macmillan**

Mynediad: £1.00

**Sadwrn, 21 Medi**
10.00 - 12.00

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Medi 30**
**Hydref 14 a 28**

Croeso cynnes i bawb

## FESTRI JERUSALEM

Cyfarfod Agoriadol
**Y Gymdeithas**
yng nghwmni
**Hogia'r Bonc**
Nos Iau, 10 Hydref
am 7 o'r gloch.

## NEUADD OGWEN

**PNAWN DIFYR**
**Te Prynhawn**
**ac Adloniant gan**
**Wil Tân**

**15 Hydref**
**am 13.30**
Mynediad am ddim
(I archebu lle ffoniwch
07492 290 041)

## NEUADD OGWEN

5 Hydref: Parti Tonnau – Drumbago Feat, Luzmira Sherpa, DJ Volta 45
6 Hydref: Melin Melyn
11 Hydref: Evan Dando
23 Hydref: Harold Lopez – Nussa – Pedwarawd Jazz Cuba

## FESTRI JERUSALEM

**Bore Coffi**
**Clwb Gorffwysfan**

Sadwrn, 28 Medi
10.00 – 12.00

Mynediad : £1.00

## Canolfan Cefnfaes (Top)

**Bore Coffi**
**Plaid Cymru**

Sadwrn, 5 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## CAFFI COLLED BETHESDA

Dydd Llun 1af & 3ydd bod mis
**Canolfan Gorffwysfan**

**************

Medi 16: **trip i'r Gadeirlan**
Hydref 7: **paned a sgwrs**
Hydref 21: **trip i Betws y Coed**
Tach 4: **Goleuo Cannwyll er cof**
Tach 18: **I'w drefnu.**
Rhagfyr 2: **panad a sgwrs**
Rhagfyr 16: **Cinio Nadolig**
Ionawr 13: **Panad a sgwrs**
Ion 27: **Blwyddyn Newydd Sineaidd**

*************

Cysylltwch â'r Caplan Bro:
Parchg. Sara Roberts:
Sararoberts@churchinwales.org.uk
Ffôn symudol: 07967652981
FB: CAFFI COLLED

## Dyddiadur Boreau Coffi

**21 Medi** - MacMillan – Festri Jerusalem.
**28 Medi** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.
**05 Hydref** – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen – Top Cefnfaes.
**02 Tachwedd** – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen – Top Cefnfaes.



## CANOLFAN CEFNFAES

**Gyrfa Chwist**

Medi 24
Hydref 8,22 a 29
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**RHAGLEN 2024/2025**

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Rhagfyr. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.15 o'r gloch.**

**Lleoliad y cyfarfodydd:**
**Wyneb yn wyneb:** Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom:** Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

**NOS LUN 14 HYDREF**
7.00 **Barry 'Archie' Jones** – *Rhwng Jeriwsalem a'r groes*

**NOS LUN 11 TACHWEDD**
7.00 **Howard Huws** – *Diwylliant Gwerin Dyffryn Ogwen a'r cylch.*

**NOS LUN 9 RHAGFYR**
7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**
7.15 **Dr. Nia Jones** – *Owain Glyndwr a'r cylch*

**2025**

**NOS LUN 13 IONAWR**
7.00 **Shan Robinson** – *Merched Dylanwadol Dyffryn Ogwen*

**NOS LUN 10 CHWEFROR**
7.00 **Y Prifardd Ieuan Wyn** – *Hiwmor Dyffryn Ogwen*

**NOS LUN 10 MAWRTH**
7.00 **Dafydd Fon Williams** – *I'w hysbysu*
**[Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]**

**FFI AM Y CWRS**
£10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212, neu gyda arian parod ar y noson

# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Nid mater o farn

Tybed sawl eisteddfodwr a ddychwelodd o’r Eisteddfod dan ganu,

“Fuoch chi ’rioed yn morio?
Wel do, ym mhwll y Lido …”?

Do, cafwyd nofio ym Mhontypridd eleni, fel ym Mharis. Ond os oedd yr ysbryd cystadleuol yn fwy amlwg ym mhwll nofio’r Gemau Olympaidd nag ym mhwll awyr agored Parc Coffa Ynysangharad, nid felly yn yr Eisteddfod ei hun.

Synnwn i ddim nad yw ambell i ganwr neu lenor neu fardd yr un mor gystadleuol ag unrhyw redwr neu nofiwr neu ymladdwr. Ond ar Faes y Brifwyl, fel gydag amryw o’r campau Olympaidd yn cynnwys gymnasteg, deifio, beicio BMX a bocsio, gan y beirniaid oedd y gair olaf. Mae cystadleuwyr yn ymddiried yn y beirniaid i ddyfarnu’n ddeallus a theg, ond yn deall hefyd bod elfen oddrychol i’r beirniadu a bod chwaeth bersonol y beirniaid yn rhan o’r stori. Fel arall, byddai pob deifiwr, dyweder, yn derbyn yr un marc oddi wrth bob aelod o’r panel beirniaid. Ond dyw parchu barn y beirniad ddim o reidrwydd yn golygu cytuno â’r farn honno. Mae edliw’r cam a gafwyd ar lwyfan a maes chwarae dan law ambell feirniad yn hen, hen draddodiad.

Yn gam neu gymwys, bydd rhai cystadleuwyr yn eu cysuro’u hunain trwy fynnu nad barn y beirniad sy’n penderfynu safon eu perfformiad. Nid chwilio am gysur, ac yn sicr nid ein twyllo ein hunain a wnawn wrth fynnu nad barn neb am yr Efengyl sy’n penderfynu ei gwerth. Mae ei gwerth hi’n gwbl annibynnol ar farn pawb ohonom amdani.

I lawer o bobl, a hyd yn oed o bosibl i’r mwyafrif o bobl ein gwlad erbyn hyn, nid oes unrhyw werth i’r Efengyl. Os nad yw’r newyddion da am Iesu Grist yn nonsens llwyr iddyn nhw mae hi’n sicr yn gwbl amherthnasol i’w bywydau. I eraill, y mae iddi beth gwerth, er nad o reidrwydd iddyn nhw eu hunain. Ond i rai, mae’r Efengyl yn drysor sy’n cyfoethogi bywyd ac yn eu cyflwyno i’r Crist y mae’n werth byw a hyd yn oed marw drosto.

Nid barn ei gelynion a’i dirmygwyr am yr Efengyl sy’n cyfrif, na barn ei chyfeillion a’i charwyr chwaith. Mae gwerth hon ynddi hi ei hun: mae’r newyddion da am Iesu Grist yn wir, beth bynnag a feddwl neu a ddywed neb ohonom amdano. Mae’n wir am mai Efengyl Duw ei hun ydyw: Neges Duw ydi hi am yr hyn a wnaeth Duw trwy Iesu Grist. Mae’n wir, beth bynnag ein barn amdani. Mae’n wir er gwaethaf pob sen. Mi fyddai’n wir hyd yn oed pe byddai ei phleidwyr mwyaf pybyr yn cefnu arni. Mi fyddai’n wir pe na bai neb yn ei chredu.

Nid barn nac argyhoeddiad yr un Cristion, sy’n rhoi gwerth i Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. I’r gwrthwyneb yn llwyr. Mawredd yr Efengyl ei hun sy’n parhau i’w gwneud yn werthfawr i filiynau o bobl nes peri iddyn nhw ddymuno byw er ei mwyn, a hyd yn oed eu galluogi, pe byddai raid, i farw drosti.




# Nyth y Gân

### CAMFA

Un dda dros waliau oedd hi, yn hwylus
I’r rhelyw fynd drosti;
Roedd preniau cadarn arni
A gwerth yn ei nerth i ni.



### YR EISTEDDFOD

***(ar ôl gwrando ar y cantorion ifanc ar lwyfan y Brifwyl)***

Mae ambell gân yn tynnu
Dagrau i’n llygaid ni
Naill ai am fod rhyw tristwch
Neu hwyl o’i chlywed hi.

Ymateb fyddwn weithiau
Yn gryf i’r hyn a ddwed,
A chofio wnawn y geiriau
Er mwyn eu rhoi ar led.

Mae cyfoeth mawr yng Nghymru –
Eisteddfod ddaw ag o
Gan roi i’r ifanc gyfle
I ddangos gwerth eu bro.

### Y DDERWEN

O fesen fach y tyfodd,
A gwyrth, yn wir, yw hyn;
Yn awr mae hi’n frenhines,
Yn gawres ar y bryn.


Am fisoedd gwisg fu ganddi,
A hon o’r brig i’r bôn
Yn siglo’n hynod ysgafn
Uwchben y wledig lôn.

Ac yna ar ei brigau
Daw’r mes yn llwyth di-ri’,
A sawl brenhines newydd
A dyf o’i hadau hi.

**Dafydd Morris**



# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Map a llu o siartiau, ond yn methu gweld ei ffordd (4)
3 Cysgodi a chuddio (4)
7 Yn ei wendid nid yw yr un fath wedi colli pum cant (5)
8 Derbyn dawn a thalent rhiant (7)
10 Swnio fel modur mewn lle fel Bala, a lle i fyw ynddo (7)
11 Paratoi i daro'r nod (5)
12 Ditectif sy'n gwneud rheswm o'r sefyllfa dorcyfraith - teledu (5)
17 Cliw sydd yn amlwg a chlir (5)
18 Cwm Rhondda neu Blaenwern (4-3)
19 Tad arall dryslyd wedi dwyn gwarth arno'i hun (7)
21 Gad i'r gwynt ei chwifio (5)
22 Heb ddechrau edmygu caiff edrych i weld ei lun ynddo (4)
23 "Rhwd yw ei anrhydedd" yn ôl yr englyn heddwch (4)

## I LAWR

1 Mynd lan a chael cip clir ar y copa a'r pwynt uchaf (6)
2 Y bardd oedd yn hen yn yr Hen Ogledd (6)
3 Dafydd i'w gymharu â Goleiath (3)
4 Mehefin yn fis trefnol (6)
5 Bilidowcar, gwylan a mulfran er enghraifft (4,1,3)
6 Ei chariad wedi gadael Lisa fach yr Hendre yn ôl y gân, ond mae am un arall (3,8)
9 Dwy gôl sgoriwyd, ond neb yn ennill y gêm (2,2)
11 Y bigfelen (6,2)
13 "Llaw a - - - - dyn perffeithia, Er iachad a rhyddhad..." emyn (4)
14 I ladd gwair ers talwm (6)
15 Mae amser yn dal i falu yr hen adeilad (6)
16 Lle gwag a diarffordd (6)
20 Awydd mawr (3)

Atebion erbyn 4ydd Hydref 2024 ***fan bellaf*** (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

## ATEBION CROESAIR GORFFENNAF 2024

**AR DRAWS** 1 Egni, 4 Cwcw, 8 Cadw, 9 Iachawdwr, 10 Chwalu a Chwilio, 11 Nodio, 13 Caddug, 15 Y Per Ganiedydd, 18 Cyffredin, 19 Swil, 20 Sgio, 21 Nant

**I LAWR** 2 Gwanwyn, 3 Idwal, 4 Coch Yw, 5 Cywilydd, 6 Didaro, 7 Ewro, 12 Daeareg, 13 Canant, 14 Gwythien, 15 Ymyl, 16 Godro, 17 Eisin

Dyma'r camgymeriadau a gafwyd y tro yma: 'cynanu' yn lle 'canant' (13 I Lawr), 'goddug' yn lle 'caddug' (13 Ar Draws), 'cymrodyn' yn lle 'cyffredin' (18 Ar Draws), 'chwilio a chwilio' a 'gweld a chwylio' yn hytrach na 'chwalu a chwilio' (10 Ar Draws).

Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir : Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Rosemary Williams, Tregarth; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Iona Williams, Llanddulas; Meilyr Wyn, Gerlan; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Medi Michael, Bangor; John Ffrancon Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; John R. Jones, Rachub; Judith Hughes, Llangoed.

Llongyfarchiadau i David T. Hughes, Melysfan, 33 Y Glyn, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9HU am ddod yn gyntaf allan o'r het i dderbyn y wobr y tro hwn.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO TEIARS A BATRIS

GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com



Dilynwch Llais Ogwan ar X **@Llais_Ogwan**